YR YMOFYNYDD.

RHIF. 76.] EBRILL, 1865. [AIL GYFRES.

DAEAREG.

PAN fu arolygwr yr ysgol yma ddiweddaf, sylwai fod yn rhaid rhoddi mewn ysgolion cyssylltiedig â gweithfeydd tanddaearol, wersi'n achlysurol ynddynt ar ddaeareg; ac mewn ymddiddan a fu rhwng ychydig o arolygwyr yr ysgol ar yr achlysur, addawodd Mr. Daniel Thomas a minau draethu ychydig ar y gyfundrefn hon yn iaith y lle, iaith ein mamau; pan fyddai ty'r ysgol yn addas i dderbyn yr ysgolheigion; a hyny fel rhagarweiniad i wersi pellach i'r ysgolheigion gan ein ffyddlon ysgolfeistr, pan farnai ef fod rhai o honynt yn addas i'w derbyn heb esgeuluso gwybodaethau mwy buddiol. A phan oeddwn wedi rhyw ragbaratoi gyferbyn a chyflawni'r addewid, derbyniais hysbysiad caredig oddiwrth y Parch. — Hughes, gweinidog y Bedyddwyr yn y lle, fod rhes o ddarlithiau mewn bwriad i gael eu rhoddi ar fyr, gan amrai gyfeillion o'r lle, ar wahanol byngciau, gyda gwahoddiad i minau gydweithredu drwy roddi darlith ar *geology* i'r gym'dogaeth; a da genyf hysbysu mai dyma'r cyntaf o'r rhes.

Os na fydd yr ychydig a draddodir heno o ddyddordeb, gobeithio na fydd i hyny lwfrhau'r lleill o'r darlithwyr; nac ychwaith i ddiflasu'r gwyddfodolion, fel yn herwydd hyny y bydd iddynt absenoli eu hunain yn y cyfarfodydd dilynol.

Geology, yn gyffredinol, yw'r testun fel eglurhad ar y *section* yna (sef section o grwstyn y ddaear.)

Ni fyddai gwersi ar ddaeareg o fawr pwrpas debygid i blant ieuainge; nac ychwaith i fechgynach yn y Saesneg, oni fyddant yn deall y iaith hono yn weddol; ond gwersi'r ysgol gaffai fwyaf o sylw plant, ac a argraphai ddyfnaf ar eu cof, er efallai nad anmhriodol fyddai gwersi o'r fath ar brydiau yn ysgol y nos.

Nid wyf yn honi i mi fy hun ddim o ddarganfyddiadau daeareg; a dim ond ychydig o'r drychfeddyliau cynwysedig yn yr hyn gaf ei ddarllen yma heno: gosod allan rai o wirioneddau daeareg mewn iaith sathredig ydyw'r amcan; rhoddi'n fyr gymaint ag a allaf o brif nodweddion y gyfundrefn, a blino cyn lleied ag a allaf ar y gwrandawyr, 'rwyf yn hyderus y cewch ychwaneg o fanylion gan rai o honom rhyw dro eto.

Mae gwirioneddau daeareg yn gynwysedig mewn darganfyddiadau a wnawd gan wahanol bersonau, yng ngwahanol barthau y byd, yn yr oesoedd diweddaraf, drwy sylwi ar wahanol haenau crwstyn y ddaear, fel y ceir hwynt yn orphwysedig y naill ar ben y llall. Nid trwy ddych'mygion, na myfyrdodau y naturiaethwr hyn, neu'r olrheiniwr acw yn ei ystafell y sefydlwyd y gyfundrefn; ond y mae'n sylfaenedig ar wirioneddau noeth canfyddadwy i'r llygad—FACTS, "*and facts are stubborn things.*"

Holl haenau crwstyn y ddaear argraphedig ar y *section* acw, sydd wedi cael eu rhesu mewn cyffelyb drefn i'r hyn a wnelem ni, gwyr y gweithiau glo yma wrth gymeryd cyfrifiad o drwch gwahanol haenau mewn pwll *gravel*, *cwar*, *clift*, glo, *fireclay*, &c., fel y byddo; feallai y byddem wrth wneuthur ein *section* fychan mewn amheuaeth weithiau pa enw i roi ar ambell haen a fyddai'n rhyw haner *clifft*, a haner cwar, yn dynesu fwy at un na'r llall, ymron bod yn gwar feallai, ac heb fod felly'n hollol; ond nid ydym un amser mewn amheuaeth pa un a fyddai un o'r haenau yn garreg galch ai peidio; nid oes lle i amheuaeth yn hyny: dyma gip olwg ar un o nodweddion gwahaniaethol daeareg: mae carreg galch yn ffurfiad hollol wahanol yn ol y wyddor hono, i eiddo glo a'i gylch; ac yn gynwysedig yn benaf o ddefnydd, nad oes ond ychydig neu ddim o hono yn y llall, sef y defnydd calchog. Mae'r glo a'i berthynasau cyfagos, yn neillduol am weddillion coedydd, hesg, rhedyn, ac amryw fathau o lysiau; rhai o honynt yn gyffelyb i'r hyn a welir yn tyfu yn ein cymydogaeth ar hyn o bryd; a rhai meddant i'w canfod yng ngwledydd yr hinsawdd boethlyd; a glo'n neillduol am ei gynwysiad o brif elfenau coed; ceir allan o goed ddefnydd hylosgawl a elwir *wood tar*, mae genym hefyd ein *coal tar* (dau ddefnydd cyffelyb); tynir allan o goed yn y *distilleries* fath o wlybwr llosgadwy a elwir *naphtha;* mae genym hefyd ein *coal naphtha*, a *paraffin*, gwlybyroedd cyffelyb eto. Mae math o liw hardd wedi cael ei dynu'n ddiweddar allan o *dar* a elwir *magenta;* darganfyddiad diweddar yw hon, ac y mae un tar fel y llall yn ei gynwys; coed wedi eu mudlosgi a rydd *garbon* pur, sef golosg coed; a glo wedi ei gyffelyb losgi a rydd gyffelyb *garbon*, sef ein *coke*. Dengys y gwirioneddau hyn i *geologist* y berthynas sydd rhwng glo a defnyddiau llysieuog; ystyrir felly mai gweddillion llysieuog yw glo: a gelwir y glo a'i gylch yn ffurfiad dyfroedd croew.

Yn y galchfaen ni fyddai gwiw edrych am lawer o weddillion coedydd a llysieu priodol i sych diroedd, fel sydd i gael yn y glo a'i gymydogaeth; ond ceir yno weddillion nad yw byth i gael yn y llall; mae natur yn lled onest yn ei gweithrediadau; dim *pilfering;* ond yn ol y *geologist* gellir meddwl na raid byth diolch iddi am ei honestrwydd yn hyn o beth; fod y dorau'n rhy gryfion, a'r rhanwelydd yn rhy uchel iddi pan mewn un sefyllfa, gyraedd dim o eiddo'r llall; fod un yn cael ei ffurfio yn y llyn dwfr croew, tra'r oedd y llall yn casglu ei mhaeth, os iawn yr ymadrodd, yn yr halltforoedd, a'r ffeithiau sydd i brofi hyn ynt: mai cregin y môr, pysg y môr, llysiau y môr, yn fyr, mai morawl ynt yr oll a gynwysai'r galchfaen; tra mae gweddillion coedydd, llysiau, ac hanfodolion tirawl, casgledig gan ddyfroedd croew, ydynt nodweddion y glo a'r haenau cyfagos perthynol iddo; yr ydym wedi dechreu ein hymchwiliad mewn man lled ryfedd debygid; yn rhywle tua'r canol; feallai nad anmhriodol iawn ar y cwbl yw dechreu gartref: cynghorir ni i wneuthur hyny mewn rhai ymchwiliadau eraill beth bynag.

Wedi cyffwrdd fel yna rhyw ychydig o nodweddion cymydogaeth gartref, nyni a ymegniwn fyned dipyn oddicartref i wared tua gwaelod y *section* yna; rhaid gofalu peidio myned ymhell iawn ffordd yna hefyd rhag iddi fyn'd yn rhy boeth arnom; oblegid dywedir wrthym fod canolbarth y ddaear yn danchwa hylifol, na wyr neb pa drwch, ac yn wir, mae rhyw chwyddiadau dychrynllyd yn tori allan yn awr ac eilwaith o'r mynyddau tanllyd yna: a mwg parhaus yn esgyn i fynu o honynt.

Cof genyf ddarllen darluniad o helynt dyn ieuangc o Brydeiniwr, a deimlai awydd brwd am gael gweled geneu agored un o'r mynyddoedd tanllyd yna; a chan gymeryd arweinydd gydag ef oddiwrth droed y mynydd, aeth ar ei daith; wedi cyrhaedd glan y ceubant cyntaf o'n blaen a arweiniau tuag at y prif fwg dwll, dywedai y boneddig Prydeinig fod yn rhaid myned yn nes; yr elai ef i ymyl y mwg dwll er edrych i mewn iddo, a gweled pa fath le ydoedd; rhybuddiai'r arweinydd ef o'r perygl, gan ddywedyd nad elai efe ymhellach; ond ymlaen aeth y boneddig wrtho ei hun; wedi bras gamu am ychydig ar draws y clogwyni o gerryg rhyddion a arwynebai'r ceubant, ysgrechodd yr arweinydd arno am ddychwelyd ar frys; trodd y boneddwr ei wyneb yn ol yn arafaidd, dipyn yn ddisylw o'r rhybudd, gan ateb, "fod yr arweinydd yn frawychus iawn," ac ymlaen ag ef; yr oedd wedi canfod, er mor ddisylw oedd, wrth droi ei wyneb yn ol, fod ychydig fwg yn *pibo* allan yma ac acw yn y garn oedd ef newydd fyned drosti, yr hyn yn ddiameu a berodd i'r arweinydd frawychu cymaint; gyda hyn dyma dwrw fel sŵn taran o bell idd ei glywed yn mol y ddaear o tanynt. Gwaeddodd yr arweinydd drachefn yn frawychus iawn, nad arosai efe yn hwy, ac aeth ymaith; y boneddig yn anfoddlon i roi i fynu cyn cyrhaedd ei amcan, ac yntau mor agos a gwneuthur hyny, ni throai'n ol; yr oedd yn awr ar lan yr ail geubant a ddynesai at ymyl y mwg-dwll; a'r hwn oedd yn fwy serth na'r ceubant allanol; ac aeth yn gynil fach dros y cernydd hyn eto, nes cyrhaedd ymyl y twll; ond erbyn hyn nid oedd nemawr i'w weled i mewn ond mwg, yr hwn oedd wedi tewychu'n ddirfawr yn ystod yr eiliadau diweddaf; brysiodd i ddychwelyd yn union, ac ar ei waith yn dringo'n wisgi ar hyd y garn tuag i fynu teimlai'r cwbl yn crynu tano,—y garn fel pe buasai'n fyw dan ei draed; wrth frasgamu felly llithrodd ei droed i lawr rhwng dwy garreg fawr, ac ar waith hyny'n digwydd ymwasgodd y cerryg at eu gilydd nes dal ei droed yn dyn rhyngddynt. O! aruthrol! ymledai safn y mwg dwll ofnadwy ymhob cyfeiriad; rhai o'r cerryg oedd ef wedi bod ychydig eiliadau cyn hyny yn brasgamu arnynt, yn awr wedi syrthio i'r eigion toddedig isod; arferai bob nerth oedd feddiannol arno er dihatru ei hun yn rhydd: ond er pob ymdrech y cwbl yn ofer; y garn yn ymsuddo i'r dyfnder yn dyllau i'r wyneb o fewn ychydig latheni iddo, ac yntau mewn dalfa rhwng y cerrig, na wyddai pa eiliad yr ymsuddent, ac ef gyda hwynt. Ar hyn wele'r arweinydd yn dyfod i'r golwg unwaith eto, a phau welodd sefyllfa'r boneddig druan, brysiodd er pob perygl tuag ato, ymaflodd ynddo, a thrwy gymorth y ddau rhyddhawyd y droed; ond gadawyd yr esgyd ar ol, a chyn bod y ddau anturiaethwyr allan o olwg y geneu ymagoredig, y ddwy garreg, yr esgyd, a chrynswyth o'r lithrfa gyfagos oeddent wedi syrthio i'r dyfnder isod.

Rhedodd y ddau feudwy hwnt oddiwrth y perygl annesgrifiadwy gyda'r brys mwyaf galluadwy iddynt yn sefyllfa gloff y Prydeiniwr, a phan oeddynt ychydig gannoedd o latheni draw dyma ysgydwad dychrynllyd yn cymeryd lle yn y mynydd; y mwg yn ymdorchi i fynu; tân, llwch, a cherrig yn ymfolltio i'r entrych—arwyddion amlwg fod chwydd-ruthr danllyd wedi dechreu. Aeth y ddau yn ddiogel i'r gwastadedd; ond ni fu awydd ar y Prydeiniwr i anturio i'r fath le peryglus mwy.

Mynydd *Vesuvius*, ger *Naples*, sydd a thorriad allan cyffelyb newydd ddygwydd iddo: afonydd tanllyd o *lava* wedi bod yn ymdreiglo i wared ar hyd ei ochrau, a dinas *Terro del Greco*, yr hon a gynwysai 22,000 o drigol-

ion, wedi cael ei dinystrio drwy y trychineb. Yr olygfa ar y mynydd hwn dydd Sadwn wedi Nadolig, 1861, a ddarlunir gan lygad-dyst fel y canlyn, sef—

"Fod y mynydd yn orchuddedig gan eira, ac yn chwydu allan yn barhaus lydw a mwg, fel a ellid ddychmygu a ymddyrchai i fynu oddiwrth *factory engine* o allu deng mil ar hugain o geffylau yn gweithio ar eu heithaf: ac ar droed y mynydd *Terro del Greco* yn garnedd a haner orchuddedig."

Y mae tri chant o losg-fynyddau ar wyneb y byd yn bresenol.

Gwirioneddau o'r fath hyn, ynghyd a tharddiadau allan ffynonau poethion yn naturiol o grombil y ddaear am oesoedd, fel sydd wedi ac yn cymeryd lle mewn amrai fanau, a hyny gannoedd o filltiroedd o bellder oddiwrth un mynydd tanllyd, fel sydd yng Nghaerbaddon, ychydig filltiroedd tua'r dwyrain o *Fristol*, ydynt arddangosiadau tebyg iawn fod rhywbeth yn yr hyn a ddywedir, sef fod canolbwngc y ddaear yn hylif tanllyd, llawer o gannoedd o filltiroedd o dryfesur. A'r holl *faults* bychain a mawrion sydd groes ynghroes i'w gilydd ymhob cyfeiriad, ddynodant fod crwstyn y ddaear wedi cael ei hollti rhyw amser maith yn ol gan chwyddiadau tanddaearol aruthrol.

Ond os edrychwn tua chanol y *section* yna cawn weled arlun ffurfiadau diweddarach na'r chwyddiadau tanddaearol a berasai'r *faults* sydd danynt; tua chymydogaethau Llundain a Paris mae cannoedd o latheni o drwch o'r ffurfiadau hyn, ac heb erioed gael eu haflonyddu gan rhuthriadau cyffelyb i'r rhai a berasant y *faults* sonedig; hyny yw, maent wedi ymgasglu'n haenau ar eu gilydd wedi i'r *faults* sydd danynt gymeryd lle, a thebyg yw fod ffurfiadau cyffelyb yn ymgasglu'n feunyddiol yn y moroedd a mawr lynoedd y byd; oblegid mae holl fân a mawr afonydd aneirif y byd yn *garriers* i drosglwyddo gwyneb a chynnyrch gwyneb y ddaear iddynt oddiar holl sychdiroedd y byd; ac nid oes dim o'r holl ddefnyddiau hyn yn dychwelyd, fel mae y dwfr ei hun yn ymgodi'n gymylau i syrthio yn ol ar y ddaear eilwaith yn wlaw neu eira fel byddo'r hin; gan hyny mae rhyw gasglfa fawr o'r defnyddiau yn cymeryd lle, ac o *bossibl* yn ymhaenu'n barhaus yn weleuau ar eu gilydd yn ol eu pwysau, a'u fferyllawl gyfaddasiad i gyfateb llonyddwch, cyffroad, llifiad, ac ansawdd y dyfroedd yr ymffurfiant ynddynt.

Dyma fath o greadigaeth newydd yn ymffurfio'n barhaus yng ngwaelodion y dyfroedd; a chyda'r fath hyn o ymgasgliadau mae'r coral *insects*, prif adeiladwyr calchfeini'r byd, yn beunyddiol bentyru ymhob cyfeiriad, gan osod eu hunain yn rhan o'r pentyrau a ffurfiant greigydd calchog gannoedd o filltiroedd o hyd mewn rhai llefydd yn nosranau mwyaf llonydd y moroedd yn ymylu i wyneb y dyfroedd.

Sefyllfa bresenol y bellen ddaearol, y llonyddwch cymharol mae gwahanol ranau ei gwyneb wedi gael gan chwyddiadau tanddaearol yn ystod yr oesoedd diweddar a arddengys os byth y daw y ffurfiadau hyn yn sychdiroedd, y byddant yn gyffelyb o ran gwastadrwydd a chyfanrwydd eu haenau i'r hyn ydyw eiddo cym'dogaethau Llundain a Paris ar hyn o bryd; ond pe buasai'r ffurfiadau cyntefig wedi cael cyffelyb lonyddwch, buasai rhan fawr o drysorau crombil y ddaear ynghudd oddiwrth ddynolryw am byth; y *faults* yna, er mor rwystredig ydynt i ddilyn haenau unigol, sydd wedi peri, neu'n hytrach a ddynodant yr achos a berodd ddinoethiad gwahanol gwerydd a meteloedd crwstyn y ddaear trwy eu dryllio a'u chwyddo i fynu, ac yna iddynt gwympo'n ol; rhai ar led-traws, a rhai ymron bod yn union-syth;

nes ydyw'r hyn fuasai gannoedd o latheni, ïe, beth milltiroedd odditan ddiweddarach gwyneb y ddaear wedi cael eu dwyn i'r golwg a'u gadael at wasanaeth dyn.

Wele ddoethineb a daioni anrhaethol Creawdwr yr oll, yr hwn a gymwysodd y rhwystrau mwyaf a gyferfydd cloddwyr y ddaear a hwynt, i fod hefyd y daioni mwyaf possibl iddynt hwy ar y cwbl, ac i ddynolryw yn gyffredinol.

Gyda phriodoldeb y gellir dywedyd—

" Er fod rhwystrau'n rhwym o fod,
Yng nghynllun doeth yr hwn sy' 'riod;
Gwna ef o'i râs, anrhaethol yw,
Y drwg er da i ddynolryw."

Cyn dechreu ar y gorchwyl o ddesgrifio y gwahanol haenau fel eu gwelir yn lliwiedig ar y *section* yna, efallai mai gwell fyddai gwneuthur rhai sylwadau cyffredinol pellach.

Yn y lle cyntaf mae'r gwahanol haenau a gynwysant grwstyn y ddaear idd eu cael yn mhob man yn yr un drefn, un ar ben y llall, ag y gwelir hwynt ar y *section*, hyny yw, nid ydyw'r haen sydd isaf mewn un man byth idd ei chael yn uchaf mewn un man arall, (oddieithr lle byddo *faults* wedi peri rhyw beth felly) ceir fod haenau'n eisiau mewn rhai llefydd: er enghraifft, ceir y tir glô yn sir Benfro ar derfyniad Glogafn Mawr Deheudir Cymru, yn gorwedd ar y *states;* tra y mae yn ein cymydogaeth ni yn gorwedd ar galch-faen y mynydd: calch-faen y mynydd ar ben yr hen dywodfaen goch, a'r hen dywodfaen goch ac amrywiol haenau eraill dani, ar eu gilydd, y cwbl yn amrai gannoedd o latheni o drwch unionsyth rhyngom a dyfod at y *slates* yng Ngogledd Cymru; y cyfryw haenau nid ydynt i'w cael yn sir Benfro lle y mae glo a *slates* i gael hebddynt; felly er fod haenau yn eisiau mewn rhai llefydd, nid oes gymysgfa o honynt yn un man oddieithr fel y sylwyd ychydig mewn manion yma ac acw achosedig gan chwyddiadau tanddaearol sydd wedi peri'r *faults*. A thra mae'r gwahanol haenau i'w cael fel hyn yn gorwedd yn drefnus un ar ben y llall, cawn hefyd fod pob haen yn cynwys nodweddion neillduol; rhai o honynt yn amddifad o un math o weddillion tyfawl; rhai a rhesi o weddillion llysieuog ynddynt; rhai o greaduriaid penodol; ac eraill a gweddillion llysiau a chreaduriaid ynddynt; y cyfryw nodweddion a arddangosant sefyllfa'r wyneb ar y pryd yr ymffurfiodd y gwahanol haenau hyny: nid ydys i ddeall fod pob haen yn cynwys gweddillion hollol wahanol yn yr holl fanylion a gynwysa oddiwrth yr un nesaf odditani neu oddiarni, ond yn unig fod y gwahaniaeth y fath ar y cwbl fel mae'n hawdd adnabod un oddiwrth y llall; ac hefyd fod y gwahaniaeth yn cynnyddu fwy fwy, fel y cynnydda'r pellder rhyngddynt.

Ystyrir hefyd fod y rhan ddynoethedig o grwstyn y ddaear, er nad ydyw ond teneu mewn cyferbyniaeth i drwch y bellen ddaearol, eto ei fod yn cynnwys y prif wirioneddau gofynol er cael allan gynwysiad yr oll o'r creigiau.

Gyda fod y gwahanol haenau hyn idd eu cael mewn cyffelyb drefn yng ngwahanol barthau y byd, y maent hefyd yn cynwys cyffelyb weddillion dros wyneb yr holl ddaear: yr hyn a ddengys fod gwres gwyneb y ddaear yn y cyfnodau cyntefig yn fwy cyson drosti nag ydyw yn awr; tebyg yw fod gwres gwyneb y ddaear y prydiau hyny yn fwy ansoddol ynddi ei hun: oblegid yn yr oesoedd diweddar ac hyd yn bresenol, pan yr ydys mor amddibynol am wres ar ei gwyneb, ar allu tuallan i'r ddaear, sef yr haul, ceir

tyfiant y wyneb a chreaduriaid yr hinsawdd boethlyd yn wahanol iawn i eiddo'r hinsoddau tymherus, ac eiddo'r hinsoddau poethlyd a thymerus yn wahanol i lysieuaith a chreaduriaid rhanau mwyaf oerllyd y byd; felly mae yn awr ar y wyneb, ond dywedir fod gwres mewnol y ddaear eto y fath fel pan gyrhaeddir celloedd mewnol ugain llath yn unig o dan dywarchen y wyneb, fod y gwres-fesurydd (lle na byddo llifiad cryf o awyr) yn arddangos cyffelyb dymher dros y byd; ac fod y gwres yn cynyddu pa ddyfnaf yr elid; fod cynydd o un gradd i'w gael ar ben tri-ugain llath o ddyfnder islaw'r ugain llath cyntaf—a chan gymeryd y gwirioneddau hyn yn safon i gynydd y gwres, a'r ugain llath cyntaf tua chanolbwngc y ddaear, ceir y byddai gwres digonol i doddi haiarn ymhen 36 o filltiroedd o ddwfn; a gwres a berai i'r defnyddiau caletaf a wyddus am danynt fod yn llyn toddedig ymhen 54 o filltiroedd o ddyfnder o'r wyneb.

Mae y gwahanol haenau hyn yn cael eu rhesu gan ddaearegwyr i ddau brif fath, sef—y TANFFURF a'r DWFRFFURF. Y creigiau a elwir y tanffurf ydynt ffurfiadau trwy dân, fel mae'r enw yn arwyddo.

Nid oes iddynt fân raniadau a elwir *beds;* nac ynddynt un math o weddillion llysiau na chreaduriaid, y prif o ba rai ydynt y *granite*, y gwerddhaenau, sef *trap* a *serpentine*, *&c.*, y ffurfiadau o liw *purple*, sef *porphyry;* Basalt a lava, sef ffrydiau presenol fynyddau tanllyd. Dynodir y gwahanol ddefnyddiau hyn ar y *section* yna yn eu lliwiau priodol, fel y ceir hwynt naill ai yn llawr i eraill ymorphwys arnynt fel y *granite*, neu wedi cael eu gwthio i fynu yn drawswythi i'r wyneb drwy ffurfiadau a orweddai wrth bob ymddangosiad yn haenau cyson a didor y naill ar ben y llall cyn i'r ffrwydriadau tanddaearol dori trwyddynt; yr haenau a elwir y Dyfrffurf ydyw yr holl haenau cyson yna a welir yn gorwedd un ar ben y llall ar war y *granite*; gelwir hwynt felly am eu bod yn ffurfiadau hanfodol i, neu'n gasgliadau gan ddyfroedd, ac wedi caledu yn y sefyllfa hono; rhai o honynt yn grynhofa dyfroedd croew, ac eraill yn ffurfiadau mewn halltforoedd.

Cawn yn awr sylwi ar y gwahanol haenau gorphwysedig ar eu gilydd fel y gwelir hwynt ar y *section;* gan ddechreu gyda'r *lwmpyn* mawr yna ar y llaw aswy, sef y cwar *granite:* yr hwn ydyw y llawr neu y sylfaen ar ba un mae'r holl adeiliad yn orphwysedig.

Gwelwch nad oes ynddo ef ddim *beds.* Mae'n gynwysedig yn benaf o'r defnyddiau a elwir *mica*, *felspar*, a *quarts* mewn sefyllfa risialaidd *(crystalised)* pob un ar ei ben ei hun, yn anghyson wahanedig.

Ceir fod ynddo hefyd ffwnau a elwir *hornblend*, *garnet*, *talc*, ac amrywiol craill.

Granite yw'r harddaf o'r creigiau o ran ei ffurf amrywiaethog, ac amryliw'r defnyddiau a'i gwna i fynu.

Mica sydd amryliwiog o ddu, gwyn, a llwydwyn neu arianaidd. Felspar yn goch, melyn, gwyn, glaswyn, a gwyrdd. Quarts fynychaf o liw gwyn neu laswyn; a Hornblend gwyrdd tywyll neu ddu. Ceir *mica* yn llafnau ychydig fodfeddi o hyd, cymmysgedig a thalpau grisialaidd o felspur, tra mae y *quarts* yn fath o lanw rhyngddynt; y defnyddiau hyn wnant i fynu y *granite*, ac ymddangosant blith draphlith a'u gilydd yn y modd mwyaf anrhefnus, ond hardd a mawreddog.

Ceir y *granite* yn ffurfio rhes o fynyddau goruchel, megis y *Pyrenees* yn *Spain;* y *Grampian* yn *Scotland*, a'r Alps yn *Italy*, lle y mae'n bigyrnau

idd eu cribyn ; efe hefyd yw prif gwar rhanau uchaf *Ben Nevis*, yn *Scotland*, a'r *Andes* yn *South America :* a *Porphyry* gochlas yn gorwedd yn fath o derfyniad godidog ac yn gopa i bob un o honynt. Mewn manau eraill gwelir ef fel llawr tonnog i greigiau eraill ymorphwys arno : a cheir ef hwnt ac yma wedi ymchwyddo i fynu o'r eigion, a llanw hagenau gwneuthuredig gan ruthriadau tanddaearol a holltasant y creigiau lle y mae yn ffurfio gwythi sythion a changenog i bob cyfeiriad : ac ymhob man y ceir ef mae'n arddangos profion o'i ffurfiad mewn sefyllfa doddedig, ac yna wedi caledu trwy raddol oeri.

Arferir ef mewn amrai fathau o adeiliadau, ac yn neillduol mewn rhai y byddo cadernid a pharhad yn brif amcan iddynt. Efe sydd yn y colofnau oesol a elwir *Pyramids* yr Aipht ; o hono ef mae pont Waterloo Llundain wedi cael ei hadeiladu ; a phentan o hono ef sydd yn ymylu afon Thames fel sylfaen i senedd-dai Prydain ; cyrchwyd ef i'r cyfryw ddyben o Aberdeen yn Scotland ; a math arw o hono ef yw yml-lawr hir ddoc Caerdydd, a'r dalbyst sydd ar ei lan trosglwyddedig yno o Cornwall.

Mica a talc a geir weithiau yn llafnau oddeutu troedfedd ymhob ffordd ; attebant pan y ceir hwynt felly idd eu hollti'n llechi teuau, ac yn herwydd eu tryloywder gwasanaethant yn lle gwydr. Y Rhufeiniaid a arferent lechi o'r fath yn eu gerddi ys oesoedd yn ol, i'r un pwrpas ag yr arferir gwydr yn awr, a hyny cyn bod gwydr yn adnabyddus. Goddefa talc fwy o wres na gwydr heb ei niweidio : ac mewn llongau rhyfel nid yw mor agored i falurio wrth grynhelliad yr ergidion.

Felspar yw'r prif ddefnydd yn *varnish* ein pridd-lestri goraf, a throsglwyddir miloedd o dunelli o hono bob blwyddyn o Cornwal i brif *botteries* Lloegr.

Cynwysa'r defnyddiau hyn lawer iawn o gallastr *(flint)*, ac fel yr oerodd crwstyn y ddaear ymddengys eu bod wedi grisialeiddo yn *granite :* dyma'r ffurf gyntaf yn nhrefnusrwydd y cread.

Y nesaf sydd effaith graddol-leihad gwres gwyneb y ddaear, ynghyd a dylanwad deublyg awyrau a threigliad dyfroedd arni, a'r ffurfiadau a elwir *gneiss* a *mica schist* yw y canlyniad, dyma'r haenau henaf adnabyddus o gasgliad dyfroedd ; ymdaenai'r ffurfiadau hyn mor gyffredinol dros y bellen ddaearol, fel y maent yn nes o fod yn ffurfiadau dros yr holl wyneb nac un ffurfiad diweddarach ; nid oedd y pryd hyn greadur byw yn bodoli, am fod yr haenau wrth bob tebyg yn gasgliad dyfroedd pan oedd y wyneb yn rhy boeth i greadur cyfansawdd fyw arni ; mae'r ffurfiadau hyn, fel mae'n rhesymol i ddysgwyl, yn gynwysedig o'r un fath ddefnyddiau a'r *Granite*, ond mewn cyferbyniaeth wahanol gyda rhai mwnau ychwanegol, y prif wahaniaeth rhyngddynt a'r *granite* yw, fod y defnyddiau ynddo ef yn gornelog, a phob math yn anghyson wahanedig oddiwrth y llall ; tra mae y *gneiss* a'r *mica schist* yn gyfansoddedig o ronynau hir-grynaidd, yn eglur ddangos treuliad mewn dwfr trwy rhygliad ; ac hefyd ceir y rhai hyn yn weleuau ar eu gilydd fel dail llyfr, pan nad y *granite*, fel y sylwyd yn barod, ond telpyn dihaen.

Presenoldeb *garnet* yn haenau bychain drwy'r *gneiss* a'r *mica schist* yma a ddynoda'n dra eglur radd y gwres a fodolai ar y wyneb yn amser ei gynnyrchiad.

Yn y lle cyntaf mae *garnet* yn ddefnydd mwy toddadwy na'r cwerydd hyny ymha rai y ceir ef, ac hefyd yn dân-ffurfiad ; rhaid felly fod y gwres

pan ymgasglai'r *garnet* yn fân wythi yn y creigiau hyn yn ddigonol i'w doddi ef i'r fath raddau ag yr hidlai i'r agenau cyfagos, pan nad oedd y gwres yn gyfryw ag a doddai'r graig a'i cynwysai. Oerach sefyllfa nag eiddo ffurfiad y *granite*, eto yn ddigon poeth i doddi *garnet*. Wele fel y mae natur yn arddangos ei hunan.

Nid yw'r cwerydd hyn yn nodedig am eu buddioldeb at unrhyw bwrpas neillduol oddieithr math o galchfaen galed sydd i'w chael ynddynt a elwir y galchfaen gyntefig, yr hon sydd yn fynor gwerthfawr *(marble)*.

Y ffurfiad nesaf yw y clai-lechi *(slates)* y glasgwar *(grauwacke)*, a rhesi o galchfeini a *shales* a elwir, *The Silurian system.*

Mae unigedd y cynoesoedd ar gael ei dorri yn awr, a thyfiant a bywiolion yn dechreu ymddangos ar wyneb y ddaear er dwyn y fath gyfnewidiadau godidog oddiamgylch, rheidiol oedd fod rhagbaratoiadau wedi cael eu cario ymlaen yng nghyfansoddiad y byd, a weddai i ddwyniad allan o groth yr hen fam fel hyn ei chyntaf-anedigion.

Fel oedd callestr yn brif nodweddiad *gneiss* a *mica schist* y buom yn son am danynt, felly mae clai yn brif nodwedd y ffurfiadau sydd yn awr dan ein sylw. Y cwerydd *slates* sydd yn gyfangwbl gyfansoddedig o gymysgfa gleiog: ceir hwynt yn weleuau mawreddog o drwch, mewn rhai manau yn galed a holltadwy, a manan eraill yn nawsaidd a hawdd eu treulio ymaith gan ddwfr neu unrhyw beth a rhyglai ynddynt; yn ddysglaer yr olwg arnynt ac amryliw. Mae trwch cwerydd yr Wyddfa yn bump cant o latheni.

Yn y Glasgwar, yr hyn a elwir *Grauwacke*, mae'r defnydd cleiog yn gymmysgedig â gronynau tywodlyd; ceir adranau o hono yn fath o *slates* garw, ac adranau eraill yn gymysgfa arw o dywod bras a chlai, a gelwir ef felly yn *conglomerate*. Mae buddioldeb y *slates* mor adnabyddus fel na raid ei enwi.

(I'w barhau.)

GOCHELWCH Y BACHYN.

GAN MRS. H. B. STOWE.

Yr oedd mam Charley yn fynych yn arfer eistedd gydag ef ar bwys y tân, cyn cynneu'r goleu yn yr hwyr, ac yn adrodd darnau bach o farddoniaeth iddo. Yr oedd Charley yn neillduol o hoff o'r pennillion canlynol o eiddo Miss Jane Taylor:—

"Mam anwyl," medd brithyll bach unwaith mewn nant,
" O dacw gylionen 'rwy'n coelio;
Mae arna' i chwant bwyd, ac y mae arna' i chwant
I chwi'm gadael i fyned a threio."

" O di y diniwed un bach," ebai'r fam
Gan frysio o'i thwll yn dra sydyn,
" Nid ydyw'r gylionen a weli ond *sham*
I guddio blaenllymdra y bachyn."

Mi glywais mai brithyll bach ifange oedd e,
Un ifange a ffol a di-ystyr;
Ac felly meddyliodd y mentrai i'r lle
Er gweled beth allai fe wneuthur.

Dan chwareu o gylch y gylionen yr aeth,
Gan roi llawer golwg hiraethlon:

Yn fynych dyweyd wrtho 'i hunan a wnaeth,
"Nid bach yw 'rwy'n coelio'n fy nghalon.

O leiaf mi âf i roi'n gynnil un plwc
Gael profi beth fydd y canlyniad."
Fe'i rhoddodd, ond fel yr oedd gwaethaf ei lwc
Fe'i daliwyd e, *druan*, mewn eiliad.

Ac fel'r oedd e'n gwaelu, yn fwy fwy o hyd
Yn isel fe 'i clywyd yn galw:—
"Pe buaswn yn gwrandaw llais mami mewn pryd
Ni fuaswn fel yma'n cael marw!"

Wedi gorphen y pennillion hyn, yr oedd Charley yn edrych yn brysur iawn ar y tân, a dechreuodd wneud ei sylwadau arnynt. "Wel, dyna un bach ffol oedd y brithyll bach. Gallasai wybod yn well o'r goreu."

"Edrychwch beth ydych yn ddweyd, Charley," meddai ei fam; "y mae llawer iawn o fechgyn bach yn llawn mor ffoled a'r brithyll bach hwn. Er enghraifft, yr oeddwn i'n adwaen bachgen bach er ys ychydig amser yn ol, yr hwn y dywedod ei fam wrtho am beidio bwyta afalau a chyrens surion, am y buasent yn ei wneud yn dost. Nid oedd yn bwriadu cyffwrdd â nhwy, oblegid gwyddai mai peth annymunol yw bod yn dost a chymmeryd moddion doctor; ond fe a wnaeth yr un peth yn gywir a'r pysgodyn bach.

"Yn lle cadw i bant ym mhell, cerddai oddiamgylch i'r coed, codai'r afalau gleision i fyny i edrych arnynt, cydiai yn y cyrens, yn gyffelyb i'r modd y chwareuai y pysgodyn bach o amgylch i'r bachyn. O dipyn i beth dywedodd, "Yn wir nid wyf fi'n meddwl y gwnâ nhw ddim niwed i mi; ni wnaf fi ond bron profi *ychydig* o un." Wedi hyny bwytaodd un, ac wedi'n un arall, nes o'r diwedd iddo fynd yn dost iawn iawn. A ydych yn eofio?"

"O mami, fi oedd hwnw. Ydwyf yn cofio o'r goreu."

"'Nawr Charley, gwrandeweh arnaf fi: nid oes neb yn gwneuthur dim sydd yn feius iawn am eu bod yn bwriadu hyny ar y cyntaf. Y mae dynion yn dechreu o ychydig i ychydig, dim ond bron profi a threio peth sydd yn ddrwg, yn gyffelyb i'r pysgodyn bach yma."

"Wedi'n dyna George Jones, bachgen ffein, bachgen nobl, ac un yn bwriadu gwneud yn iawn; ond dyna nid yw George ddim bob amser yn cadw yn rhydd oddiwrth y bachyn. Cewch ei weled weithiau yn sefyll o amgylch i fànau lle mae dynion yn yfed ac yn rhegi. Nid yw George ddim yn bwriadu i fyned byth i yfed a rhegi; nid yw efe ddim ond yn sefyll yno i glywed y dynion hyn yn canu eu caneuon, ac yn adrodd eu hystoriau; ac weithiau fe ŷf, dim ond diferyn bach o'r sugr a'r gwirod allan o waelod y *glass*. Ond nid yw George ddim yn bwriadu bod yn feddwyn byth. Ah, edrychwch atoch eich hunan George! nid oedd y pysgodyn bach yma ddim yn bwriadu cael ei ddàl chwaith; ond yr oedd yn cadw i chwareu rownd a rownd a rownd y bachyn, ac o'r diwedd fe'i cipiwyd i fyny; ac felly y digwydd i chwithau hefyd, os na edrychwch chwi atoch eich hunan.

A dyna William Day, y mae'n bwriadu bod yn fachgen onest; ac nis gallech ei yru i fwy o natur ddrwg na thrwy ddywedyd y byddai efe yn lleidr; ac etto y mae William *yn chwareu gormod o amgylch-ogylch y bachyn*. Beth mae'n wneud? Wel, y mae'n cymmeryd rhyw bethau bychain allan o *ddesk* neu siop ei dad, neu allan o fasged neu *ddrawers* ei fam, pan nad yw mewn gwirionedd yn dymuno i'w fam i'w weled nac i'w ddàl. Y mae William yn meddwl, "O, dyw e ddim ond peth bach, dim llawer o fater am dano; gwn y byddai cystal ganddynt i mi ei gael a pheidio." Ah, William, a ydych yn meddwl hyny? Pam nad aech chwi at eich rhieni ynte, a gofyn am dano? Na; y gwir yw, y mae William yn dysgu lladrata ond nid yw yn credu mai lladrata yw hyny, ddim mwy nag oedd y pysgodyn bach yn credu, mai bachyn ofnadwy mewn gwir oedd yr hyn a ymddangosai mor debyg

gylionen. Bob yn dipyn, os na chymmer William ofal, pan yr ä i siop neu ystordŷ efe a ddechreua gymmeryd pethau bychain oddiwrth ei feistr; yn debyg fel yr oedd yn gwneud oddiwrth ei dad a'i fam; ac efe a gymmer fwy mwy o hyd; nes o'r diwedd y caiff ei enwi a'i waradwyddo megys lleidr; a hyny i gyd, am ei fod fel y pysgodyn bach, yn *mynu chwareu o amgylch i'r bachyn.*"

WILLIAM EDWARDS.

Yr hanes a ganlyn sydd wedi ei difynu gan mwyaf o lyfr a elwir *Exemplary Biography*, cyhoeddedig gan William a Robert Chambers, Llundain.

Ganwyd y dyn enwog a chywrain hwn yn y flwyddyn 1719, yn mhlwydd Eglwysilan, yn agos i Bontypridd, sir Forganwg.

Bu Edwards mor anffodus a cholli ei dad, yr hwn oedd amaethwr, pan o gylch deng mlwydd oed; ond parhaodd ei fam i ddal y ffarm wedi marwolaeth ei dad, ac felly galluogwyd hi i ddwyn ei theilu, o ddau fab a merch, heblaw William, yr hwn oedd yr ieuangaf, i fynu yn weddol cyssyrus.

Nid hir y bu ei meibion henaf cyn dyfod yn alluog i gymeryd y ran bwysicaf o waith y ffarm oddiar ei dwylaw hi. Yn y cyfamser addysgwyd William i ddarllen ac ysgrifenu yr iaith Gymraeg, a thyna'r oll o addysg a ymddengys iddo gael ar gost eraill o'r hyn lleiaf.

Pan o gylch pymtheg oed dechreuodd ad-gyweirio y gwelydd o amgylch y ffarm; ac yn y gelfyddyd isel hon enwogodd ei hun o radd i radd am ei fedrysrwydd a'i ddeheurwydd. Darfu i'w waith ragorol a'i gyflymdra yn y cyflawniad o hono ddenu sylw yr amaethwyr cymydogaethol, ac oherwydd hyny cynghorasant ei frodyr i'w gadw wrth hyny o orchwyl, a chaniatau iddo i arferyd ei fedr pan oedd galwad am hyny, a'r ffarmau eraill yn gystal a'r eiddynt eu hunain, ac y mae'n debyg iddynt lwyddo yn eu cais. Wedi hyny dros beth amser yr oedd ganddo lawn waith, ac yr oedd fel bachgen da, yn chwanegu yr oll a enillai at drysorfa gyffredin y teilu.

Yr unig fath o adeilad oedd ef wedi ymarfer ag ef, ac wedi weled hefyd am hyny yn cael ei adeiladu oedd gwelydd sychion, ond yn mhen ychydig amser yn mhellach digwyddodd i seiri meini ddyfod i'r plwyf i adeiladu pentis i bedoli ceffylau wrth siop gof. Sylwodd William gyda'r manylrwydd a'r diddordeb mwyaf ar y pen seiri hyn, a safai uwch eu penau am oriau tra yn gweithio, gan syllu yn fanol dros ben ar bob ysgogiad o'r eiddynt. Un peth a ddenodd ei sylw yn anghyffredin iawn oedd hyn,—sef eu bod hwy yn *uso* mwrthwl gwahanol i'r un ag oedd ef wedi arfer ei *uso*, a chan iddo gael ei argyhoeddi o'i ragoroldeb penderfynodd gael un o'r un fath wneuthuriad mor gynted ag oedd yn ddichonadwy, ac wedi iddo gael hwnw cafodd allan ei fod yn gwneuthur ei waith gyda llawer mwy o gyflymdra, ac yn llawer gwell na chyn hyny, ac nid hir wedi iddo ef, am y tro cyntaf yn ei fywyd, gael cyfleusdra i weled tau yn cael eu hadeiladu yr ymgymerodd â'r gorchwyl o adeiladu tŷ ei hunan.

Gweithdŷ i gymydog oedd, a chyflawnodd ei orchwyl yn y fath fodd ag enill cymeradwyaeth anghyffredin y rhai a'u gwelsant. Yn mhen amser byr wedi'n cyflogwyd ef i adeiladu melyn, trwy yr hyn yr enwogodd ei hunan yn mhellach, ac erbyn hyn yr oedd yn cael ei ystyried y gweithiwr gorau yn y rhan hono o'r wlad, a chan ei fod mewn cymaint parch am ei uniondeb a'i *ffyddlondeb* i'w addunedau (peth ag y mae llawer o grefftwyr y dyddiau

diweddaf hyn yn bur ddiffygiol o hono) ynghystal ag am ei fedrusrwydd, cafodd gymaint o waith a allasai gyflawni fel adeiladydd cyffredin.

Yn ei seithfed mlwydd ar ugain oed tueddwyd ef i ymgymeryd ag anturiaeth llawer mwy pwysig nag un oedd efe hyd hyny wedi anturio.

Y mae Tâf yn rhedeg trwy ei blwyf genedigol, yr hon sydd yn arllwys i gulfor yr Hafren. Pwrpaswyd taflu pont dros yr afon hon mewn rhyw fan penodol lle yr oedd llinell o heol fwriadedig i groesi drosti; ond ymgodai rhai rwystrau lled anorchfygol yn erbyn y cynllun canmoladwy, a hyny o herwydd lled yr afon a'r chwyddiadau aml oedd yn ddarostyngedig iddynt. Codai mynyddau gorchuddiedig gan goed i uwchder anghyffredin oddiar y cheulanau, y rhai oeddynt yn at-dynu ac yn caethiwo y cymylau agosaol, ac yna yn danfon eu cynwysiad mewn llifogydd anferthol i'r afon.

Pa fodd bynag am hyny, ymgymerodd William Edwards a'r gwaith o adeiladu y bont fwriadedig, er mai hwnw oedd y tro cyntaf iddo i ymaflyd yn y fath orchwyl anturiaethus; o ganlyniad dechreuodd ei orchwyl yn y flwyddyn 1746, ac mewn amser cyfaddas dibenodd bont ysgafn orwych o dri archfwa, yr hon, er mai gwaith hunan-ddysgawdwr, ac un nad oedd wedi teithio ond ychydig er cael goleuni ar ei gelfyddid, a gydnabyddwyd y ragorach nag unrhyw adeilad o'r fath yn Nghymru.

Mor belled a hyn yr oedd ei lwyddiant wedi bod mor llwyddianus ag y gellesid dymuno; ond pell oedd ei orchwyl o gael ei gwblhau neu ei orphen. Yr oedd ef a rhai cyfeillion iddo wedi cyfansoddi neu roddi sierwydd y buasai y bont yn sefyll ei thir dros saith mlynedd, a thros y ddwy flynedd a haner cyntaf o'r amser uchod aeth pob peth yn mlaen o'r goreu, ond ar ben y cyfnod hwnw daeth cenllifoedd neu lifogydd i lawr oddiar y mynyddau nid yn unig trwy eu rhedleoedd arferol, ond chwyddasant nes dwyn gyda hwynt goedydd o'r maintioli mwyaf, y rhai oedd wedi eu dad-wreiddio, a chafodd y rhai hyn eu caethiwo gan y pilcri canol nes ffurfio arglawdd, a chan fod y dwfr yn croni yn gyflym iawn y ty ol darfu iddo yn y diwedd ruthro o'i garchar megys yn gynddeiriog gan ysgubo ymaith yn un clamp yr oll adeilad. Nid anffawd o ychydig pwys oedd hon i Edwards druan, yn mhob ystyr, ond ni ddigalonodd ef serch hyny, ac oherwydd hyny ymaflodd yn uniongyrchol yn ei orchwyl drachefn o adeiladu pont arall fel yr oedd ei gyfamod yn ei rwymo. Penderfynodd y tro hwn i daflu un archfwa o'r maintioli digyffelyb o saith ugain trodfedd o biler i biler dros yr afon.

Dibenodd yr archfwa aruthrol hwn yn y flwyddyn 1751, ac nid oedd ganddo ddim i'w wneuthur bellach ond yn unig ychwanegu y rhagfuriau *(parapets)* pan gafodd ei siomi yn ddirfawr unwaith yn ychwaneg wrth weled ei bont yn suddo i lawr i'r dwfr dros yr hwn oedd wedi ei adeiladu; gweithiodd pwya angherddol y gwaith maen i fynu y cerig clo, ac wrth gwrs ymddifadwyd yr archfwa o'i gydbwysedd.

Er mor drwm oedd yr ail siomiant hwn i obeithion prydyrus y pen saer, ni ddarfu iddo siglo ei ddewrder nau wangaloni ychwaish yn fwy na'r tro cyntaf; gan hyny ymaflodd yn ei waith drachefn o adeiladu y bont gyda dewrder ac ymddiried calonog, a chan ei fod wedi penderfynu glynu wrth ei gynllun olaf o un archfwa, yr oedd wedi meddwl erbyn hyn am ddyfais neu gynllun cywrain i leihau y pwysau dirfawr oedd wedi gwasgu y garreg glo allan o'i lle.

Yn mhob un o'r clampiau mawrion o'r maen-saerniaeth y rhai a elwir morddwydau *(haunches)* y bont, y rhanau ydynt yn uniongyrchol uwchben

y ddau ben pellaf i'r archfwa agorodd dri thwll rholynaidd bob ochor, y rhai nid yn unig a ysgafnasant y rhan ganol o'r adeilad o ormodaidd pwysau; ond yr oedd yn edrych yn llawer harddach yn mhob ystyr. Dibenwyd y bont hon yn y flwyddyn 1755; felly yr ydym yn gweled fod y pen saer wedi bod wrth ei orchwyl am yn agos i naw mlynedd, ac oddiar hyny hyd yn bresenol y mae wedi sefyll ei thir.

Gan i fod pont newydd a llawer mwy cyfleus i fyned drosti wedi cael ei adeiladu yn bur ddiweddar islaw iddi ar yr afon, nid yw ddim yn atteb unrhyw ddiben neillduol yn bresenol oddigerth fel ymddiffynfa i'r un newydd i arafu y llifogydd pan yn ymrolio megys yn gynddeiriog tua'r môr.

*Y bont hon, pryd yr adeiladwyd hi, oedd yr archfwa gerryg mwyaf a wyddid am dani yn y byd. Y mae darllenwyr yr YMOFYNYDD, o'r hyn lleiaf rai o honynt, yn gwybod erbyn hyn o bossibl mai am Bont-y-pridd ydym yn siarad, am yr hon y canodd y diweddar Barchedig Edward Evan, Ton Coch, fel y canlyn:—

Ty di ddarn, gadarn a godwyd,—o'r mur
Er maint â afradwyd;
'Dest i ben, fe'th orphenwyd,
Rhywfodd doeth, rhyfeddod wŷd.

Bwa maen sylfaen sailfawr,—nid gwrthrudd,
Ond gwrthrych dych'mygfawr.
Lleithrig faingc dra llwythog fawr,
Cadarn drwch, yn llwch y llawr.

Un arch, ddihafarch, ddefod,—dda hirgylch,
Ddi-ŵyrgam gyfarfod,
Lle rhwyddaf i Dâf er dôd
Drwch odiaeth drwg ei cheudod.

Dyma ddrych fawrwych na fu,—un o'i delw,
Yn ardaloedd Cymru;
Nac un man, er ymdannu,
Trwy Europia llawna llu.

William, dan ddinam ddaioni,—glanwych,
Ragluniaeth aeth drwyddi,
Cas ofid swrth oddiwrthi,
Anhawdd oedd ei gorphen hi.

Trwy ddidwyll, hirbwyll heb ballu,—o'i ben
Yn poenus ddych'mygu,
Gwers ddyrus ofidus fu,
Araw dasg er ei ddysgu.

Tewch weithian swrddan a sûr,—sildarach,
Heb ystyried nattur,
Gorphenodd waith perffaith pur,
O ran gwas er ei gyssur.

Mae'r gwaith, da odiaeth ei ddull,—hynottaf,
A'i nattur i sefyll;
Pe doi i lawr, hwylfawr hyll,
Cynddrwg yn chwilfriw canddryll.

'E saif hon, yn llon, uwchben llu,—dirfawr,
I dyrfa fyn'd drosti;
Os saif y llawr gwywawr gri,
Dinag yn llonydd dani.

* Gan ei bod mor hynod, a chan i son am ei hynodrwydd daeni dros y gwledydd, ymddengys i lawer iawn o ymwelwyr o bell ac agos ddyfod i'w gweled, a gallwn yn rhwydd ddigon ddychmygu eu bod yn synu ac yn rhyfeddu wrth edrych arni.

Yr oedd llawer yn meddwl i fod y pen saer wedi cael cymorth arianol gan rhai o foneddigion haelionus y sir, a chan ddieithriaid y rhai oeddynt wedi dyfod o wahanol fanau, fel ydym wedi crybwyll yn barod, i weled yr adeilad a'r adeiladydd, ond nid oes genym hanes cywir ac awdurdodol ynghylch hyny, ac ni wyddai neb o'i dylwyth ddim am un cymorth o'r fath oedd wedi gael gan neb, medd Malkin. Gwel *Malkin's South Wales*, cyf. ii., tud. 138.

Adeiladodd Edwards lawer o bontydd yn y Deheudir wedi adeiladu Pontypridd, a rhai hyny wedi ffurfio eu archfwau ar ddarnau o gylchoedd llawer mwy ëang, ac o ganlyniad yn llawer mwy ëang, ac o ganlyniad yn llawer mwy cyfleus. Ffurfiodd y gwelliant hwn yn hollol trwy ei brofiad a'i graffder ei hun, fel yn wir y gellir dywedyd iddo wneuthur mewn perthynas i'r oll wybodaeth oedd yn y meddiant o hono yn ei gelfyddid. Yr oedd yn arfer dweud iddo ddysgu hyd y nod elfenau cyffredin maen-saeryddiaeth, yn benaf wrth astudio yn mhlith adfaelion hen Gastell Gothaidd yn Nghaerphilly, yn ei blwyf genedigol.

Yr oedd yn amaethwr hefyd hyd ddiwedd ei oes; a'r fath oedd ei fywiogrwydd didôr fel nad oedd yn ymfoddloni ar ddilyn y ddau alwad uchod yn yr wythnos; ond wedi cael ei ordeinio mewn modd rheolaidd pan o gylch deg ar ugain oed, parhaodd i wasanaethu cynulleidfa o Brotestaniaid ymneillduol yn y Groes Wen, ger Pont-y-pridd, bob Sabboth, hyd nes iddo ganu yn iach i'r fuchedd bresenol. Yr oedd yn derbyn y gyflog arferol oddiwrth ei gynulleidfa, gan ystyried y dylasai gynal ei gweinidog, ond yn lle gosod yr arian yn ei logell dychwelai bwynt oll, ac yn fynyeh iawn lawer yn rhagor fel cardod neu elusen i'r tlawd.

Dywedai yn ddoeth fel hyn, "oblegid fy mod i yn gallel roddi fy ngwasanaeth yn rhad, a hyny am fy mod yn dilyn galwad enillfawr *(lucrative)* dichon y bydd amgylchiadau fy olynydd yn wahanol, a buasai y bobl nad oeddynt wedi arfer cyfranu dim tuag at gynal eu gweinidog yn ei ystyried yn feichus i gyfranu dim tuag at ei gynaliaeth, ac yn cael eu tueddi i edrych arno o bossibl hefyd gyda gradd o ddiystyrwch."

Er mai Calfin oedd o ran ei farn, ymddengys ei fod yn neillduol o *liberal*, medd Malkin. Gwel *Ibid*, tud. 144. A chymaint oedd ef felly fel ag yr oedd llawer o bersonau yn drwg dybio ei fod wedi ei syniadu, ac oherwydd hyny yr oeddynt yn siarad yn dra anfoneddigaidd am dano. Yn ystod ei flynyddau olaf o'i weinidogaeth yr oedd bob amser yn gochelyd y pyngciau duwinyddol ag oedd mewn dadl rhwng y Calfiniaid a phleidiau eraill. Mynych y siaradai ac y gosodai bwys mawr ar arwiredd ag sydd yn wir deilwng o efelychiad y duwinyddion mwyaf goleuedig ac enwog, sef mai cariad at Dduw a dynion ydyw swm a sylwedd gwir grefydd, a'i bod yn groes i yspryd Cristnogaeth i ddychmygu nad oedd rhai yn mhlith pob enwad Cristnogol, gan nad beth oedd eu syniadau ag oedd wedi meddianu y brif nodwedd uchod. Nid yw yn ymddangos iddo bregethu erioed yn un o gyfarfodydd y Methodistiaid. Pregethai yn aml yn nhŷ cwrdd y Parchedig Lewis Rees, tad Dr. Abraham Rees, *Golygydd* y *New Encyclopedia*, sef yng nghapel Mynydd-bach, adeiladaeth yr hwn a arolygodd efe. Nid yw y llyfr sydd o fy mlaen yn hyspyssu dim ynghylch pu'n ai yr adeilad cyntaf a arolygodd ynte yr un presenol.

Yr oedd yn casau yspryd erledigaethus ac anoddefgar,—yn gwrthwynebu ac yn siarad yn ddiystyrllyd am ddigasedd gormod o Anghydffurwyr tuag at

yr Eglwys Sefydledig, er hyny perchid ef yn fawr gan y mwyaf gwybodus a rhydd o bob enwad o Gristnogion.

Pregethai bob amser yn Gymraeg, er ei fod yn moreuddydd bywyd wedi gwneud ei hun yn adnabyddus o'r iaeth Saesnig trwy gynorthwy Walter Rosser, pobwr dall, yn nhŷ yr hwn y bu am beth amser yn llettŷa tra wrth rhyw orchwyl yn Nhref Sirol Caerdydd. Yn yr ymdrech o ddysgu yr iaeth Saesnig dangosodd ei graffder nodweddiadol.

Bu William Edwards farw yn y flwyddyn 1789, yn 70eg oed, a chladdwyd ef yn eglwys ei blwyf genedigol. X.

Y CARAITIAID (YSGRYTHYROLWYR.)

Dioddefodd y gymdeithas Iuddewaidd, yr hon oedd wedi rhwygo ddwy waith o'r blaen—i Israel a Judah, yn amser y deml gyntaf, ac i'r Phariseaid a'r Sadusëaid yn amser yr ail deml—drydedd rwygiad pan y cyhoeddodd y Caraitiaid neu'r *Beibl-Jeus* a'r Iuddewon Rabbinaidd rhyfel yn erbyn eu gilydd tua chanol yr wythfed ganrif. Er mwyn deall cyfodiad a chynnydd y sect Iuddewig bwysig ond esgeulusedig yma, y Caraitiaid, bydd yn angenrheidiol i olrhain yn fyr yr achos o'r ymryson a'r ymraniad.

Y mae'r Iuddewon, er cyn cof, wedi bod yn credu mewn cyfraith anysgrifenedig (o ben i ben—*oral*), yr hon a ddywedant i Dduw ei chyflwyno i Moses ar fynydd Sinai, a Moses i'r henuriaid a'r dysgawdwyr, Rabbiniaid Israel, i gyflenwi, esbonio, neu gyflunio'r dadguddiad ysgrifenedig, yn ol fel y byddai amgylchiadau newidiol neu oesau gwahanol yn gofyn. Yr oedd y gyfraith Rabbinaidd neu *o ben i ben* yma yn rhanedig i dair rhan. Yr un gyntaf yn cynnwys cyfreithiau *traddodiadol hollol*, ar wahân oddiwrth, neu ynte ochr yn ochr, a'r rhai sydd yng Ngair ysgrifenedig Duw.

Yr oedd *yr ail* yn cynnwys cyfreithiau wedi eu cael o'r Beibl, trwy *reolau traddodiadol* o esbonio, yn annibynol ar y rheolau iaith hyny, i'r rhai y mae pob ysgrifau eraill yn ddarostyngedig. Nid yw'r *drydedd* yn cynnwys ond y cyfreithiau hyny, y mae gan y Rabbiniaid dros yr amser, y gallu i'w gwneuthur neu i'w newid. I gadarnhâu'r gyfundrefn yma, y mae y Rabbiniaid yn appelio at y ffaith, fod holl gynllun accenyddiaeth, a *vowel points*, trwy yr hwn yr ydym yn cael ein galluogi i ddehongli ystyr y Beibl, yn gorphwys ar draddodiad; fod y Canon sanctaidd yn cael ei dderbyn ar draddodiad; a bod rhai gorchymmynion yn cael eu rhoddi mor fyred, fel nas gallesid byth eu cario allan heb ryw fath o esboniad *o ben i ben* a fyddai'n fwy neillduol.

Yr oedd y galluoedd hynod a gymmerai y Rabbiniaid neu'r dysgawdwyr arnynt eu hunain, yn llawn o beryglon neillduol hyd yn oed i'r oraclau eu hunain y rhai a honent eu bod yn eu dàl i fyny. Trwy allweddau dirgel yr oeddynt yn alluog i ddadgloi'r Beibl, ac i dynu oddiwrtho liosogrwydd o ddefodau, a seremoniau a chyfreithiau, y rhai oeddynt bron yn gyfangwbl yn claddu yr Ysgrythyrau eu hunain, felly yr oeddynt yn llwytho dynion â beichiau anhawdd eu dwyn. Oddiwrth hyn y cafodd y Saduwsëaid eu tarddiad, sect a ymffurfiodd yn raddol tua dau canrif cyn Crist, o'r Iuddewon hyny a wrthodent y traddodiadau ac a ymlynent wrth lythyrau y Beibl, ac a hauasant hadau Carïaeth, cynauaf y rhai a gasglwyd gan *Anan* tua'r flwyddyn 761 o'n amseriad ni.

Nis gellir cael allan yn gymmhwys yn awr yr amser y cafodd Anan, sylfeinydd enwog Caräaeth ei eni. Y cwbl a wyddys yw, i'w ewythr Solomon, yr hwn oedd Dywysog neu Batriarch yr Iuddewon alltudog, i farw yn ddiblant yn 761, ac mai Anan oedd ei ganlyniedydd cyfreithlawn i'r Batriarchaeth, a'i fod yn ddigon hen i fod yn Dywysog y Caethglud, fel y mae'n debyg ei fod y pryd hwnw tua deg-ar-hugain oed. Modd bynag, cafodd ei rwystro i gael y Batriarchaeth, gan ei frodyr *R. Jehudai*, y dall, a *R. Dudai*, (y rhai oeddynt y pryd hwnw yn Lywyddion yr Athrofèydd) am ei fod yn gwrthod traddodiadau'r tadau. Ond nid oedd Anan i gael ei ddodi o'r neilldu felly yn ddidrafferth. Yr oedd lluoedd nas gallent weled gwirionedd Iuddewaeth Rabbinaidd, ac yn cydymdeimlo âg Anan yn ei ddioddefiadau er mwyn cydwybod. Yr oeddynt yn ei gydnabod ef fel campwr eu hegwyddorion, ac ymgasglasant o amgylch iddo ef fel Tywysog cyfreithlawn y Caethglud. Yr oedd yr ymraniad yn awr wedi ei gyflawni. Llwyddodd y blaid Rabbinaidd, (yr hon oedd yn meddu dylanwad mawr gyda Caliph y pryd hwnw, Abugagar Almansar,) i yru Anan allan o Babylon. Ymneilldduodd i Jerusalem, lle y canlynwyd ef gan ei blant a'i gyfeillion, a lle y sefydlodd synagog. Yr oedd yr ymryson yn awr wedi dechreu o ddifrif. Esgymunodd yr Iuddewon Rabbinaidd *Anan* a'i ymlynwyr yn ffurfiol, tra y dywedodd Anan y dymunai fod yr holl blaid wrthwynebol yn ei gorph ef, fel y gallai efe trwy ddistrywio ei hun, fod yn ddinystr iddynt hwy hefyd. Gwaharddodd ei ganlynwyr ei hun i ymbriodi â neb o'r Rabbiniaid, na bwyta gydâ nhwy, nac ymweled â'u synagogau, na gwneud un math o drafodaeth yn y byd â nhwy. Defnyddiodd ei ddysg Talmudaidd mawr i ddangos fod y Talmudiaid wedi llygru'r grefydd Iuddewig, eu bod wedi tadogi ar yr Ysgrythyrau lawer o bethau nad ydynt i'w cael ynddynt, ac wedi diddymu ereill, y rhai, yn ol ystyr llythyrenol y Beibl, oeddynt yn anghyfnewidiol yn rhwymedig ar y genedl.

Wedi marwolaeth Anan, dewisodd yr Ananitiaid Saul ei fab yn arweinydd iddynt. Yr oedd gan Saul, gydâ pharch mabaidd i'w dad, y doethineb i ymroddi i ddiwygiadau pellach. Ymwrthododd yn llwyr â rhai pethau a sefydlwyd gan sylfeinydd Caräaeth am eu bod yn anarferadwy, newidiodd ereill, a dygodd lawer iawn i mewn i gyfarfod â gofyniadau amser a lle. Gwnaeth astudiaeth y Beibl yn ei ystyr llythyrenol a grammadegol yn brif wrthrych, gan nad oedd y *folios* a gynnwysent draddodiadau y Rabbiniaid ddim yn cael eu hystyried bellach fel awdurdodau. Braedd y gellir gweled gwir werth y cyffroad a barodd y ffaith yma mewn esboniadaeth a beirniadaeth. Dechreuodd y *system* bresennol o accenyddiaeth *a vowel points* fel y mae genym ni yn awr yn ein Beiblau Hebraeg, tua'r amser yma. Cafodd yr Iuddewon Rabbinaidd, wrth weled eu gwrthwynebwyr, y Caraitiaid, yn gwneuthur cymmaint o gynnydd mewn gwybodaeth Feiblaidd, ac yn debyg o ddefnyddio'r Ysgrythyrau fel yr offeryn mwyaf peryglus yn erbyn traddodiadau'r tadau, eu gyrru mewn hunan-amddiffyniad i roddi eu hunain at astudiaeth Gair ysgrifenedig Duw. Llesolwyd y ddwy blaid felly yn fawr. Parhaodd y Caraitiaid, modd bynag, am amser yn feistri ar y maes. Y cyfryw oedd eu cynnydd mewn esboniadaeth sanctaidd, y cyfryw oedd eu dymuniad i ddyfod mor agos ag oedd bossibl at addysgiadau'r Beibl, fel y darfu iddynt hwy a'u pennaeth, tua 800-810, i ymroddi'n wirfoddol i ddiwygiad pellach o'u hathrawiaethau, fel yr oedd yn cael ei gynnyg gan Benjamin Nahavendi.

Nodir y gwahanol ddiwygiadau yma yn y geiriau canlynol gan Salomon-ben-Jeracham, esboniwr Caräitaidd enwog ar y Beibl, yr hwn oedd yn byw rhwng y flwyddyn 805 a 900: "Anan a ddaeth gyntaf ym mlaen a chynhyrfodd galonau dynion, am fod arferion y Rabbiniaid ac astudiaeth y Talmud yn peri iddynt anghofio cyfraith Jehofah a'i wir ddoethineb. Yna ymddangosodd Benjamin Nahavendi, yr hwn, gydag ymdrechion ychwanegol, a ddygodd i'r amlwg rai nodau, gyda golwg ar y rhai yr oedd Anan wedi parhau i ddilyn arferion y Rabbiniaid. Yna, ar ol Benjamin etto, daeth y Caraitiaid ym mlaen a gwnaethant gloddiau o amgylch i orchymmynion Duw. Wedi hyny daeth dynion o'r Dwyrain ac o'r Gorllewin, y rhai amgaerasant y gyfraith etto yn fwy; penderfynodd y rhai hyn i ymgartrefu yn Jerusalem, gadawsant eu meddiannau a'u cartrefi, dirmygasant y byd, a'r rhai hyn yw'r dynion a geir yn awr yn Jerusalem."

Darfu i'r cynnydd mawr a wnaed mewn esboniadaeth Feiblaidd yn ystod y ddegfed ganrif, a'r cynnydd mwy drachefn a wnaed yn yr 11, 12, 13 ganrif, yn gystal a'r gwrthwynebwyr Rabbinaidd galluog a ddaethant yn erbyn y blaid yma yn y canrifoedd hyn, (megys Laadia Gaon, Ibn Ezra, Maimonides, a Jehudah Ha-Levi) gyda'u gilydd fod yn foddion i greu mwy o undeb mewn Caräaeth a gwneud ei athrawiaethau yn fwy sefydlog. O'r amser hwn, gan hyny, gallwn edrych ar Caräaeth fel wedi ei sefydlu, yn gystal yn ei wrthwynebiad i Rabbiniaeth ag yn erthyglau sylfaenol y ffydd trwy yr hon yr oedd y Caraitiaid yn hawlio i gael ei barnu. Gyda golwg ar y gwrthwynebiad i Rabbiniaeth yn y dydd presennol, nis gallwn wneud yn well na rhoddi geiriau R. Caleb, un o ysgrifenwyr mwyaf enwog y 15 ganrif. 1. Y mae'r Rabbiniaid yn honi, "meddai Caleb, fod llawer o orchymmynion wedi eu rhoddi trwy air y geneu i'n blaenor, Moses, y rhai a drosglwyddyd o oes i oes, nes i amser ddod pan y gosodwyd hwy mewn ysgrifen, o herwydd fod ofn yn bod y cawsent eu hanghofio; ond nid ydym ni y Caraitiaid yn ei gredu. Yr ydym ni yn dàl fod yr hyn y rhyngodd bodd i Dduw i ddadguddio i'w weision ffyddlon wedi ei ysgrifenu lawr, fel y mae'n amlwg oddi wrth lawer o ranau o'r Beibl. 2. Y mae'r Rabbiniaid yn dal fod y Beibl yn gofyn esboniad, a bod yr esboniad hwn i'w gael yn y gyfraith anysgrifenedig, ond nid ydym ni yn ei gredu. Yr ydym ni yn dal fod yr holl gyfreithiau ysgrifenedig yn cynnwys eu hesboniad eu hunain. Lle mae pethau wedi eu gosod allan mewn geiriau byr, y mae'r Beibl yn cyfrif ar ddealldwriaeth y darllenydd. Y mae pob ymadrodd wedi ei amcanu i drosglwyddo meddwl y llefarwr, ynte nid yw o werth. Pa fodd gan hyny, y gallwn ni dybied fod Duw yn fwriadol yn gosod allan ei ewyllys, mewn modd annealladwy yn ei *air ysgrifenedig*, er mwyn iddo i gael rhoddi ei feddwl priodol trwy *air y geneu?* Pa fodd bynag, y mae'n ysgrifenedig fod "gair yr Arglwydd yn berffaith," a phe byddai'n gofyn esboniad ychwanegol byddai'n ammherffaith iawn. Heblaw hyny, byddai gan y sawl a fynai ei ryddid i esbonio'r Ysgrythyrau yn ol ei fympwy ei hunan. Pe byddai'r Rabbiniaid yn dywedyd fod eu traddodiadau hwy yn unig yn cyfeirio at gyfreithiau y gellir yn rhwydd eu cam-esbonio, gellid ei ddioddef, ond y maent yn myned ym mhell tuhwnt i gynnwys y Beibl ac yn gwrthddywedyd ei addysgiadau."

Wele'n canlyn ddeg erthygl sylfaenol credo y Caraitiaid:—

1. Y mae'r holl fyd materol wedi ei greu, neu wedi ei wneud o ddim.
2. Y mae un Creawdwr.

3. Y mae'r Bod hwn heb ffurf, ym mhob ystyr yn un, ac nid yw yn tebygu i un o'r bodau sydd yn hanfodi.

4. Y mae Duw wedi danfon ein dysgawdwr Moses.

5. Y mae Duw wedi danfon y gyfraith trwy Moses, ac y mae'r gyfraith yma yn cynnwys gwirionedd diammodol neu berffaith.

6. Dyledswydd pob un yw dysgu'r gyfraith yn yr Hebraeg gwreiddiol.

7. Y mae Duw wedi dadguddio ei hunan i'r prophwydi ereill.

8. Fe gyfyd Duw y meirw yn nydd y farn.

9. Fe ddyry Duw i bob un yn ol ei weithredoedd.

10. Duw a achub ei fobl o'u caethiwed, ac a ddenfyn iddynt y Messiah' Mab Dafydd.

Pwy bynag sydd yn credu y deg erthygl yma, y mae yn wir Caraitiad, er iddo fod yn ol neu gyfeiliorni mewn pethau ereill; ond y sawl sydd yn eu gwadu, neu yn gwadu un o honynt, nid yw yn teilyngu yr enw o frawd, er iddo gadw yr holl gyfraith.

Rhaid i ni derfynu gyd ag ychydig sylwadau gyd a golwg ar eu trefiannaeth eu harosfeydd presennol a'u nifer. Y Mahometaniaid, y rhai a fawrygant y Caraitiaid yn fawr, ac oeddynt yn ffafriol iawn iddynt, oeddynt yr achos iddynt ymsefydlu yng ngwahanol barthau'r byd. Aethant gyd a'r Mahometaniaid i Affrica, ac Asia leiaf, dilynasant hwy i Spaen, Antioch, Edessa, a Nicea, ac ymsefydlasant dan eu nawdd hwy yn Adrianopl, a Constantinopl. Ond er i'r trefedigion Caraitaidd yn Asia ac Affrica lwyddo yn y 13 a'r 14 ganrif, nid oes braidd o'u hol i'w canfod yno yn bresenol. Yn y rhan ddeheuol o Rwssia Ewropëaidd yn unig y maent wedi cael llonyddwch i aros. Eu gwahanol arosfêydd a'u nifer yn y flwyddyn 1649, oeddynt fel y canlyn: yn Poland, 2000; Constantinopl, 70; Theodotia, 1200; Cairo, 300; Damascus, 200; Jerusalem, 30; Babylon 100; ac yn Persia, 600. Cyfrifir eu nifer presennol tua 4000. O'r rhai hyn y mae 1500 yn byw yn Djufut Kalè, 830 yn Eupatoria, 200 yn Odessa, tra y mae rhyw ychydig yn Lithuania, Nicolayen, Taganroz, a Cherson. Dim ond pedwar teulu sydd yn byw yn awr yn Jerusalem, a thu a 250 o bersonau unigol yn Nit, tref yn Syria.

Ym mhob man y mae eu moesoldeb yn ddifrycheulyd; tra y mae eu gonestrwydd a'u cywirdeb cyffredinol yn eu hymdrafodaeth masnachol â'u cymmydogion Iuddewaidd, Cristnogol, neu Mahometanaidd yn ddiarebol. Ni cheir pechod na throsedd yn eu plith. Y mae cof-lyfran'r heddgeidwaid yn Rwssia yn dangos nad oes dim un Caraitiad wedi ei gospi am drosedd yn erbyn y cyfreithiau *am bedwar canrif*. Y mae llywodraeth Rwssia ac Awstria wedi cyflwyno i'r Caraitiaid, fel gwobrwyon am eu huniondeb a'u diwydrwydd, ragorfreintiau a breiniolaethau a wrthodir i'r Iuddewon Rabbinaidd, ac weithiau hyd yn oed i'w cyd-ddeiliaid Cristnogol. Y mae yn ffaith, nad oes un gymdeithas ar y ddaear, ym mhlith Iuddewon na Christnogion, Mahometaniaid, Ohinëaid nac Indiaid, ellir ei chymmharu mewn glanweithdra, sobrwydd, diwydrwydd, onestrwydd a moesoldeb a chymdeithas y Caraitiaid.—*Abridged from Rev. D. C. Ginsburg's Paper, in Proceedings of the Literary and Philosophical Society of Liverpool, No.* xvi. *pp.* 155-170.

TEILWNG O SYLW.

Ar foreu o auaf, ychydig flynyddau yn ol, mentrodd pedwar o fechgyn bach, y rhai oeddynt ar eu ffordd tua'r ysgol, ar lyn ; torodd yr iâ tanynt ac aethant i lawr ill pedwar. Brysiodd y pentrefwyr at y fàn, ond yr oedd yr iâ mor deneu, fel na feiddiai neb fentro i roddi cynnorthwy i'r plant bach. Ar y funyd pan oeddynt yn suddo, neidiodd bachgen bach ym mlaen, ac i mewn, ac achubodd dau o'r plant. Gwnaeth ymdrech arall trwy'r dwfr a'r iâ ac achubodd un arall. Erbyn hyny daeth mam y pedwerydd, yr hwn a ystyrid fel wedi ei golli, ym mlaen at y fan, ac yr oedd fel y gellid disgwyl mewn teimladau ofnadwy. Yr oedd y bachgen bach dewr oedd wedi achub tri rhag dyfrllyd fedd bron wedi ei orchfygn gan yr ymdrech. Ond rhwng llefain y fam, a chydymdeimlad â'r un bach oedd bron boddi, gwaeddodd allan, "*Mi a achubaf eich bachgen neu byddaf farw.*" Ac i mewn âg ef, gan dòri'r iâ â'i ddwylaw, ymaflodd yn y bachgen yr hwn oedd yn awr yn suddo y trydedd waith, cariodd ef i'r làn, a dychwelodd ef yn ddiogel i freichiau'r fam.

Campus! Bachgen dewr! "Mi a achubaf eich bachgen neu byddaf farw," ac etto y mae'r llu mawr o weinidogion Cristnogol a chredoau Cristnogol—y rhai pur *efengylaidd*—yn dywedyd wrthym fod dyn yn ei natur, cyn ei droedigaeth, yn berffaith lygredig—"yn analluog i feddwl na gwneuthur dim da," ac yn gyfangwbl dan ddylanwad y diafol. Mor gelwyddog! Beiddiwn haeru nad oes weinidog ym mhlith yr holl seintiau a allai wneud mwy nag a wnaeth y bachgen ardderchog, dewr, hwn, gan yr hwn nid oedd dim ond calon *naturiol* yn curo yn ei fynwes.

Ystyriaeth arall—o ba le y daeth y cydymdeimlad ac ardderchogrwydd y plentyn rhagorol hwn ond oddiwrth Dduw. Nid oedd ond diferyn o Ffynon Daioni. A ddichon y diferyn bach ragori ar y mor mawr annherfynol? Yr oedd y bachgen hwn yn foddlon marw yn hytrach na gadael i blentyn mam alarus i farw. Ac etto dywedir, ac y mae dynion yn credu, y bydd i Dduw, oddiwrth yr hwn y mae pob daioni yn deilliaw, gyflwyno miliynau ar filiynau o fodau dynol diallu, ei greaduriaid ci hun, i fôr o dân berwedig, nid am ergyd amrant, ond am bob tragwyddoldeb. O athrawiaeth ofnadwy! O gyfeiliornad dychrynllyd! O gabledd ar Dduw! O Arglwydd! pa hyd! pa hyd! y pery pregethiad yr athrawiaeth hon!!

"O'i gariad yn y dechreu sylfaenodd Duw y byd;
O'i gariad di-anwadal mae'n cynnal hwn o hyd;
O'i gariad mae'n rhoi cerydd, o'i gariad mae'n rhoi hedd,
O'i gariad bydd yn cospi mewn byd tudraw i'r bedd!" C.

Natur ddrwg.—Y mae dyn o natur wyllt ac anfoddog yn debyg i ddraenog, wedi ei rolio i fynu o whith, yn poeni ei hunan â'i bigau ei hunan.

Harddwch.—Dywedwyd unwaith am fenyw hardd, ei bod hi er yn blentyn yn siarad ar ei gwen; fel pe byddai'r galon yn arllwys llawenydd dros y gwefusau, ac yn taflu ei disgleirdeb yn harddwch dros ei gwyneb.

Y Tri Eisiau.—Y mae tri eisiau nas gellir eu diwallu, eisiau'r cyfoethog, yr hwn sydd arno eisiau rhagor; eisiau'r claf, yr hwn sydd ag eisiau rhywbeth gwahanol; ac eisiau'r trafaelwr, yr hwn a ddywed, "Rhyw le heblaw fan hyn."—*Emerson.*

DRYCHFEDDYLIAU DYN ANLLYTHRENOG YNGHYLCH CREDU YNG NGHRIST.

Y MAE yn rhaid i fod hen Amos wedi clywed yn mha le yr wyf fi wedi bod yn cyrchu iddo yn ddiweddar, oblegid un bore pan oeddwn yn bwyta brecwast, dywedodd, "Felly yr wyt ti yn myned i osod dy hun i fynu gydâ'r Undodiaid yna, y rhai nid ydynt yn credu yng Nghrist.

"Wel, Amos," ebe fi, "Nid wyf yn gwybod dim ynghylch gosod fy hun i fynu gydâ hwynt. Yr wyf yn myned yn awr ac yn y man i'w lle o addoliad, ac nis gallaf amheu nad hwy ydynt y dynion mwyaf rhesymol a wn i am danynt gyda golwg ar bethau crefyddol; a chyda golwg ar y cyhuddiad ydych chwi yn ddwyn yn eu herbyn, sef eu bod yn gwadu Crist, ffolineb yw hyny i gyd. Ewch a *gwrandewch drostoch eich hunan*, ac yr wyf yn sicr y cewch glywed cymaint o Efengyl yn eu lle hwy o addoliad ag sydd yn y capel bach Methodistaidd yn ein heol ni.

Nid wyf yn myned i ddweud eu bod yn credu yr un peth yn union mewn perthynas iddo ef a'ch pobl chwi; ond y maent yn ei ddal i fynu, ac yn ei ystyried fel Iachawdwr, ac ymddengys i mi, mor belled ag wyf yn gallel deall neu yn alluog i farnu, eu bod yn ei barchu·Ef ac yn siarad am dano Ef a'i addysgiadau yn uchel iawn, ïe, yn uchel anghyffredin; a chyda golwg ar eu bucheddau, yn ol eich cyf-addefiad chwi eich hunan, y maent yn llawn cystal a neb yn y dref, ac y maent bob amser yn barod i roi llaw o gymhorth, ac i roddi help a'u nawdd gyda phob mudiad daionus er gwneuthur y byd yn well nac ydyw; ond ewch a *gwrandewch drosoch eich hunan.* Ni wnai hen Amos hyny ar un cyfrif, dywedwn i y peth a fynwn nis gallwn ei berswadio i wneuthur hyny. Yn awr o'm rhan fy hun, yr wyf yn rhwym o ddweud nad wyf fi yn *beio* y bobl hyny sydd yn siarad yn erbyn unrhyw beth heb gymeryd y tipyn lleiaf o drafferth i wybod y gwirionedd drostynt eu hunain ynghylch y peth hwnw. Yr wyf fi yn *lico* clywed dyn yn adrodd ei stori ei hunan ynghylch pa beth mae yn feddwl ac yn ei gredu cyn y gallaf fi, ar un cyfrif, ei gondemnio; ac nis gallaf lai na meddwl i fod Amos ynghystal a llawer eraill yn gomedd myned i wrando drostynt eu hunain rhag ofn iddynt glywed rhywbeth nas gallant eu amheu er yn groes i'w hen syniadau, ac yn groes i'r gwersi a gawsant gan eu blaenoriaid.

A chan nad elai hen Amos i wrando un a allasai ddweud pob peth wrtho am yr hyn ag y mae'r Undodiaid yn credu mewn perthynas i Grist, gorfodwyd fi i siarad ag ef fy hunan goreu byth ag a allaswn. A rhywbeth tebyg i'r hyn a ganlyn ddywedais wrtho. Yr oedd Amos am gael pob peth yn ei ffordd ei hunan a dywedodd mai Duw ei hunan oedd Crist, ac os na chredwn i ei fod yn Dduw yr un peth oedd hyny, yn ol ei dystiolaeth ef, a gomedd credu ynddo o gwbl.

Yn awr, nis gallaswn gyttuno ag ef mewn perthynas i'r pwnc uchod, oblegid y mae yn rhaid i mi ddweud, yn y cychwyn, nad ydyw y Beibl yn ei wneuthur (Crist) yn Dduw, nac yn siarad am dano fel y cyfryw. Nid wyf yn proffessu gwybod mwy na mwy ynghylch yr ysgrythyrau; ar yr un pryd dichon fy mod yn gwybod llawn cymaint a llawer o'r bobl hyny sydd yn proffessu gwybod y cyfan; ond gan nad beth am hyny, fe ddifynodd hen Amos, ddau destyn ag oeddynt yn ymddangos yn o gryf ar yr olwg gyntaf i brofi i fod Crist yn Dduw, ac nis gallaswn lai na dymuno bod yn ysgolor da i edrych arnynt; ond er nad oeddwn fawr ysgolor gwelais yn y man na faasent yn goddef yr esponiad ag oedd Amos ag eraill yn osod arnynt.

Y mae genych chwi, Amos, ffordd i ddifynu rhai darnau o destyn yma ac acw, ac yna yn ei adael, ac oherwydd hyny dywedais wrtho y gallasai brofi unrhyw beth o'r Beibl yn y ffordd hon, a gwnaethum iddo ddwyn ei Destament i'r bwrdd a rhoddi chware teg i mi i edrych ar yr holl ymadrodd, ac ar yr hyn oedd o'r blaen ac ar ol, a chwedi gwneuthur felly cefais allan rhywbeth yn agos iawn i fod yn holloi groes i'r peth ag oedd ef am brofi.

Er enghraifft, dyfynodd ddarn o destyn o'r Epistol at yr Hebreaid, lle y dywedir fel hyn—"Ond wrth y Mab, dy orseddfainge di, o Dduw, sydd yn oes oesoedd," ac nis gallaf amheu na ddarfu i mi synu peth am foment; ond gafeilais yn y llyfr drachefn yn y man, ac edrychais arno a chefais allan mai fel y canlyn y mae y geiriau canlynol ar lawr yno, sef, "teyrnwialen uniondeb yw teyrnwialen dy deyrnas

di. Ti a geraist gyfiawnder, ac a gaseaist anwiredd; am hyny y'th enneiniodd Duw, sef dy Dduw di, ag olew gorfoledd tuhwnt i'th gyfeillion."

"Yn awr, Amos," ebe fi, "gallwch ddywedyd y peth a fynoch; ond nis gallwch wneuthur allan i fod yr ymadrodd hwn yn golygu i fod y Messiah yn Dduw, yr un fath a'r Hollalluog. Os felly, sut y gallasai neb arall "ei eneinio tuhwnt i'w gyfeillion?

Hefyd, dangosais iddo sut y dywedir, "Duw, sef dy Dduw di," felly yr oedd yr Hollalluog yn Dduw i Iesu Grist yr un fath ag y mae yn Dduw i ninau. A dygodd hyn i'm cof un peth sydd yn ymddangos yn blaen trwy'r Efengyl i gyd; hyny yw fod yr Iesu bob amser yn siarad am Dduw fel ei Dduw a'i Dad ef mewn dull nas gallasai wneuthur os oedd Efe yn Dduw eihunan. Y mae yn siarad hefyd am ei allu, ei ogoniant, a'i awdurdod nid fel yr eiddo ei hunan ond bob amser ei fod wedi cael ei ddonio a hwynt gan yr Hollalluog. Mewn un man y mae yn dywedyd, "Yr wyf yn dyrchafu at fy Nhad i ac'h Tad chwythau, a'm Duw i a'ch Duw chwythau," Ioan xx. 17; ac yn yr epistolau fe siaradir am Dduw a Thad ein Harglwydd Iesu Grist. Y mae'r Iesu yn dweud "nas gall Efe wneuthur dim o hono ei hunan." Y mae Paul, pan yn siarad am ddiwedd pob peth, yn dywedyd fel hyn—"A phan ddarostyngir pob peth iddo, yna y Mab ei hun hefyd a ddarostyngir i'r hwn a ddarostyngodd bob peth iddo Ef, fel y byddo Duw oll yn oll." Yr wyf yn gwybod am yr adnod uchod yn bur dda, oblegid y mae yn y gwasanaeth angladdol, a chymerais sylw neillduoi o honi ychydig ddyddiau yn ol pan yn angladd un o'm cyfeillion.

Ond y peth ag sydd yn ymddangos i mi yn gryfach na dim arall yw hyn, sef i fod yr Iesu yn gweddio amrywiol o weithiau. Un tro y mae yn myned i ben y mynydd i weddio; pryd arall y mae yn gweddio yn mhlith ei ddisgyblion, a gallant hwy ddywedyd wrthom ni beth a ddywedodd Efe. Y mae un benod yn Efengyl Ioan (xvii.) ag sydd yn weddi o ben bwy gilydd. Yn awr, os oedd ef yn Dduw ei hunan, sut y gallasai weddio? Ac nis gallaf fi, ar un cyfrif, gredu mai rhyw ymddangosiad allanol oedd ef yn wneuthur, ac nad oedd yn gweddio o ddifrif.

Y mae hen Amos yn myned dros yr anhawsdra hwn trwy ddywedyd ei fod yn Dduw ac yn ddyn, ac mai y rhan hyny o ddyn oedd ynddo oedd yn gweddio, a'r un peth ddywedodd ef pan ddywedais wrtho am gwestiwn a ofynodd y disgyblion i'r Iesu ynghylch rhywbeth oedd i gymeryd lle, ac iddo yntau ddywedyd yn bendant nas gallasai roddi eglurhad, neu ynte nad oedd Efe yn gwybod dim am dano, sef, "Ond am y dydd hwnw a'r awr nis gŵyr neb, nac angylion y nefoedd, ond fy Nhad yn unig."

Oh, meddai Amos, "nid oedd yn gwybod fel dyn, ond wrth gwrs fe wyddai fel Duw;" ond ni wnaiff hyn yma ddim mo'r tro. Dyna beth ydwyf fi yn ei ystyried yw gwneuthur, neu ddyfeisio un rwystr MAWR i ddyfod allan, neu fyned dros ben un *bach;* oblegid sut y gallasai yr un bod wybod a dim gwybod ar yr un pryd? Ond nid oedd o un *use* yn y byd mawr i mi siarad ag ef; ni wnaethai ddim ond siglo ei ben a dywedyd mai dirgelwch oedd, a thyna fel mae ef bob amser. Y mae yn iawn, ac yn barod i ymresymu cyhyd ag y byddo yn cael pob peth yn ei ffordd ei hunan, a phan y mae yn ol ei dyb ei hunan yn sefyll ar y tir mwyaf manteisiol nid ydyw yn yngan yr un gair ynghylch gomedd *uso* rheswm; ond mor gynted ag y byddaf fi yn dwyn yn mlaen rhyw adnod, neu reswm nas gall ei wrthwynebu, na myned drosto, y mae yn siglo ei hen ben, ac yn dywedyd mai dirgelwch yw hyd nes y byddaf fi yn myned mas o nghof yn lân.

Ond yr hyn ag sydd yn fy ngwneuthur i yn fwyaf anfoddlon i hen Amos, (a phawb o'i fath) ydyw, nid am ei fod ef yn credu yn wahanol i mi ynghylch beth oedd Crist, oblegid wrth gwrs, y mae at ei rhyddid i ddal yn dynn ei opiniwn ei hunan; ond oherwydd ei fod yn dywedyd nas gall un dyn gredu ynddo o gwbl os nad yw yn credu yr un peth ag ef, neu yn yr un ffordd ag yntau. Yn awr, nid wyf fi yn credu yr un ffordd ag ef, etto i gyd yr wyf yn credu goreu byth ag y medraf.

Pe gallwn weled yn eglur ag amlwg yn yr ysgrythur i fod y Messiah yn Dduw, buaswn yn credu hyny, ar yr un pryd yr wyf fi yn credu yr oll wyf yn ddarllen am dano yno. Nid wyf yn proffessu gwybod pob peth ynghylch ei natur; ond y mae yn ymddangos yn oleu i mi mai Efe oedd y person mwyaf a ddaeth i'n byd ni

erioed. Ac yr wyf yn credu i Dduw ei ddanfon Ef i'r byd i ddysgu y gwirionedd i ddynion—i ddangos iddynt y ffordd i'r nefoedd, ac i wnenthur y byd yn fwy dedwydd a gwell. Crefydd ragorol ydyw ei grefydd Ef, er i fod rhai pethau nad wyf fi yn gallel ei deall yn iawn, etto i gyd y mae y pethau mwyaf eu pwys—y peth hanffodol er iachawdwriaeth yn eithaf plaen, a digon yw hyny i mi, ac amlwg yw os yr ymdrecha dyn i ddilyn y llwybr ag mae'r Iesu wedi ei bwyntio allan nad aiff, ac nas gall fyned yn mhell ar gyfeiliorn. Nid wyf yn dywedyd fy mod i yn dilyn y llwybr, o'r hyn lleiaf mor union ag y dylwn, ac am hyny nid wyf yn myned i wneuthur ymhoniadau nac esgusodion; ond yr wyf yn ymwybodol o'm diffygion, nid oherwydd fy syniadau ynghylch Crist; ond oherwydd nad wyf yn glynu wrthynt mor gyndyn ag y dylwn, a byw yn unol a hwynt; ac hyd y nod pe bawn yn credu yr un peth ag Amos, nis gallaf ddychmygu mewn un modd y buaswn yn fwy boddlon i mi fy hunan. Ond rhywsut y mae yn ymddangos i mi yn drueni na baem yn cyddynu gydâ'u gilydd yn well, a bod yn gydweithwyr â Duw.

Yr un Beibl sydd genym oll, yr un Iachawdwr, a'r un Duw, ac y mae yn ymddangos yn beth dieithr fod yr eglwysi yn cwympo mas a'u gilydd fyth a hefyd.

Nid yw y Pabyddion yn ystyried y Protestaniaid ddim gwell nac Inffideliaid, ac ni ddarllenant, ar un cyfrif, lyfr Protestanaidd; a chyda golwg ar y Protestaniaid, o'r ochor arall, y maent yn gwneuthur mas mai *yr* Anghrist ydyw y Pab, ac nad ydyw ei ganlynwyr amgen na Paganiaid. Y mae pobl yr Eglwys Wladol yn siarad yn erbyn yr Ymneilluwyr. A chyda golwg ar yr Undodiaid, neu fel ag y maent yn cael eu *cam alw* yn Sosiniaid, y mae gan yr oll o'r pleidiau uchod rhyw air drwg iddynt hwy—y maent oll a'u *hap* arnynt hwy—druan o honynt; peth ryfedd eu bod yn fyw, ac etto i gyd nis gwn i ddim paham; oblegid, mor belled ag yr wyf fi wedi gweled a chlywed, nid ydynt hwy yn siarad yn anghariadus am neb, ac y maent bob amser yn dywedyd yn blaen ac eglur eu bod yn credu y bydd i'r Iesu i arddel pob eglwys, ar yr unig amod o'u bod yn credu ac yn glynu wrth yr hyn ag y maent yn gredu ac yn ymdrechu byw bywydau teilwng o ddisgyblion iddo Ef, yr hwn a ddaeth i'r byd i'r dyben o uno dynion âg Ef ei hunan, ac â Duw mewn cariad ac ewyllys da, ac a hwynt eu hunain yn un teulu dedwydd a gogoneddus.

Ond yr hyn wyf fi yn ddweud wrth Amos, ac a ddymunwn ddweud wrth bob dyn yw—*Ewch a gwrandewch drosoch eich hunan:* W. M.

CANU.

Gair wrth basio:—buais boreu ddoe yng nghapel y Methodistiaid yma. Y mae genyf gyhuddiad pwysig iawn i ddwyn yn erbyn y bobl dda, cyhuddiad o wrthgiliad cerddorol. Yr oeddwn yn disgwyl cael gwledd o ganu da calonog. Yr oedd emynau Charles Wesley yno, ac yno hefyd yr oedd yr hen donau Methodistaidd, y rhai a garai duwioldeb yr amser gynt, y rhai y mae coegniaeth diweddar yn eu gwatwar! Gellir dychymmygu fy syndod a'm blinder, ar ol darllen emyn, wrth weled côr yn codi i fyny o'r seld yn y pen draw i'r capel, ac yn dechreu canu tôn un-dôn yn ol dull y llyfr miwsig diweddar. O fel yr oeddwn yn hiraethu am daran yr hen Fethodist da. Chwythai un ffordd dda o fiwsig yr hên ffasiwn y canu diweddar yma allan trwy'r ffenestr fel wading o ddryll! Gall dynion alw hwn yn welliant ac yn *genteel.* Y mae *gentility* wedi bod yn agos a lladd ein heglwysi, ac fe ladda eglwysi Methodistaidd os roddant ffordd i'w ucheldrem ffug a niweidiol. Gwyddom o'r goreu beth oedd miwsig Methodistaidd yr hen ffasiwn. Yr oedd ynddo ffaeleddau ddigon, yn ddiammheu, yn erbyn chwaeth. Ond yr oedd ynddo *fwriad mewnol a difrifoldeb crefyddol* ag oedd yn ei alluogi i gario ei holl ffaeleddau, ac i orchfygu er eu gwaethaf. *Yr oedd* hwnw yn addoliad. Yr oedd y miwsig ddoe yn ganu gweddol, ond addoliad gwael iawn oedd. Y mae'n ddrwg genym, pan y mae ein heglwysi ni yn dechreu efelychu esampl eglwysi Methodistaidd, ac i ddwyn i mewn y melodïau y mae'r bobl yn garu, ac i annog canu cyffredinol yn y gynnulleidfa, fod ein brodyr Methodistaidd yn cymmeryd i fyny ein ffurfioldeb gwrthodedig ni mewn miwsig eglwysig. Bydd yn waeth iddynt hwy na ni. Bydd yn nod o fethiant a dirywiad. mwy.—*H. W. Beecher.*

Gohebiaethau.

CWRDD CHWARTEROL Y PASG.

Cynhelir Cyfarfod Chwarterol yn Alltyblaca ar ddyddiau Mercher a Iau, y 19ain a'r 20fed o Ebrill. Bydd y gwasanaeth cyhoeddus yn dechreu am 4 o'r gloch prydnhawn dydd Mercher, a borau dydd Iau am 10.

Taer erfyniwn ar yr holl weinidogion i fod yn bresenol heb rybudd pellach.

D. S.—Yr orsaf *(station)* nesaf i Alltyblaca ydyw Pencader eto, ac nid yw'n debygol y daw un yn nes cyn y Pasc nesaf. J. D.

CYMDEITHAS Y WEINIDOGAETH UNDODAIDD YNG NGHYMRU.

	£	s.	d.
Hysbyswyd eisoes	64	17	8
Miss Howel, Merthyr	2	0	0
Gellyonen.			
Mr. Lewis Bowen, Pontardawe	0	2	6
— W. Morris, Craigtrebanos ..	0	2	0
— J. Williams, Pentreharn .	0	2	0
— W. Williams, Penalltwen ..	0	5	0
— W. Williams, Wernddu ..	0	2	6
Mrs. Williams, Tygwyn .	0	2	6
Miss H. Evans, Fardre ..	0	1	0
Mr. Jno. Williams, Craigtrebanos	0	2	6
— J. Davies, Havod	0	4	6
— Noah Davies, Llachartfach	0	4	0
— W. Williams, Pheasant-bush	0	3	0
— H. John, Ynysonidw ..	0	3	0
— D. Bowen, Plâs	0	2	0
— Einon Thomas, Gellinudd	0	5	0
— Lewis Williams, Gellionenganol	0	3	0
— Mrs. H. Harris, Gelliwren	0	2	6
Mr. Thos. Smith, Wernfadog	0	5	0
Mrs. Dinah Thomas . ..	0	1	0
— Hannah Williams, Craigtrebanos	0	1	0
— Anne Davies	0	2	0
Mr. David Davies, Pantlasse ..	0	5	0
— David Joseph, Craigtrebanos	0	1	6
Mrs. Hannah Jones, Buildings	0	2	0
Mrs Jones, Cefnllan	0	10	0
Mr. Daniel Bowen, Cefneithrym	0	2	0
— Evan Davies, Llachartfach	0	5	0
— Thomas Morgan, Gelligron	0	2	0
— Llywellyn Thomas, Gellinudd	0	2	6
— W. Thomas, Craigtrebanos	0	2	6
	£4	8	6

Hanesion Cartrefol a Tramor.

Y Lock Out.—Nid ydyw y cweryl rhwng meistriaid y gweithfeydd haiarn a'u gweithwyr wedi terfynu etto; ac y mae dros 70,000 o ddynion yn sefyll yn segur, a'u teuluoedd wedi eu hamddifadu o'r moddion arferol o gynnaliaeth. Y mae Undeb Canolbarth y Crefftwyr wedi penderfynu cymeryd plaid y gweithwyr, a chyfranu at eu cynnaliaeth tra y byddant allan o waith. Fel y dywed y Proffeswr Fawcett, yr hwn sydd yn gwneyd ymdrech egniol i ddarbwyllo y pleidiau i ddyfod i gyttundeb :—"Y mae y cloi allan wedi ennyn cydymdeimlad holl weithwyr y wlad; y mae rhyfel cartrefol mawr rhwng cyfoeth a llafur wedi ei gyhoeddi; Prydeiniaid ydyw yr ymladdwyr, yr wyf yn ofni y bydd i'r gwroldeb ag sydd wedi rhoddi i'n cenedl ei huchafiaeth, wneyd yr ymdrechfa yn un gyndyn a hirfaith." Y mae dau o'r meistriaid wedi ail agor eu gweithydd, ac annoga Mr. Fawcett y meistriaid i alw eu penderfyniad yn ol, ar yr ammod fod i'w gweithwyr ymrwymo i beidio anfon cymhorth i weithwyr gogledd-barth sir Stafford. Ond y mae nifer mawr o'r dynion eisoes yn ymbarotoi i ymfudo i'r Unol Daleithiau ac i Awstralia. Dywedir fod meistriaid rhai o'r gweithydd mwyaf yn wrthwynebol i'r cloi allan, ac yn cynnyg fod i'r ddadl gael ei phenderfynu trwy gylafareddiad. Cynnygia rhai fod i'r holl gwestiwn gael ei roddi i Arglwydd Stanley ac Arglwydd Elcho i'w benderfynu. Rhydd *Ryland's Circular*, y mae yn dda genym ddyweyd ar ddeall y penderfynir y ddadl yn fuan trwy gyttundeb.

Dr. Colenso—*Ei ddiswyddiad gan Dr. Gray o Cape Town, wedi troi i maes yn "null and void."*—Yn y flwyddyn 1863, dygwyd cyhuddiad o heresi yn erbyn Esgob Natal o flaen Esgob *Cape Town*: ac wedi ymchwiliad manwl i'r achos, cafodd Dr. Gray ef yn euog, a diswyddodd ef, gan ei attal hefyd rhag cyflawni un swydd gyssegredig o fewn terfynau ei awdurdod ef fel archesgob. Gwrthdystiodd Esgob Natal yn erbyn yr ymhoniad hwn o awdurdod, ac anfonodd ddeiseb at Farnwyr y Cyfringynghor, yn erfyn ar iddynt ddadgan fod ganddo hawl i gadw meddiant o'i esgobaeth hyd nes y diddymid y breintlythyrau oedd wedi eu rhoddi iddo trwy weithred gyfreithlawn reolaidd. Dyna y cwestiynau mewn dadl.

Dechreua y ddedryd drwy ddadgan mai "personau ydyw yr esgobion a grewyd yn esgobion gan y frenhines fel Penadur y wlad hon, a Phen yr Eglwys Sefydledig:"—"fod eu bodolaeth gyfreithlawn yn dibynu ar weithredoedd nad ydynt yn meddu un grym oddieithr ar sylfaen uchafiaeth y Goron:"—"creaduriaid cyfraith Lloegr ydynt, ac ar y gyfraith hono y maent yn dibynu am eu bodolaeth, eu hiawnderau, a'u priodoliaethau." Yr egwyddorion hyn, y rhai a gyhoeddwyd ac a ail adroddwyd gyda phwyslais neilldduol yn nechren y ddedfryd, ydyw y sylfaen ar yr hon y mae yr holl ymresymiad wedi ei seilio. Fe ddywed y Barnwyr,—"Rhaid i ni ymddwyn at y personau sydd ger ein bron fel rhai yn sefyll ar y sylfaen gyfreithlawn hon; ac nid ar unrhyw sylfaen arall."

Gwadai Esgob Natal fod Esgob *Cape Town* yn meddu un math o awdurdod archesgobol arno ef; a dadleuai yn nghyfreithlondeb y breint-lythyrau oeddynt yn cymeryd arnynt roddi y cyfryw awdurdod iddo. Gwasgai ei ddadleuwr y rheswm hwn mor bell ag i amheu hyd yn oed a oedd gan Dr. Gray un math o awdurdod esgobol gyfreithlawn; a mabwysiadwyd y golygiad hwn gan y rhan fwyaf o'r barnwyr. O ganlyniad, nid oedd ganddynt ddim i'w wneyd ond caniatau erfyniad Dr. Colenso, a chyhoeddi fod gweithrediadau Esgob *Cape Town* yn ddirym yn ngwyneb y gyfraith. Ond y ffaith hynotaf o'r cwbl a ddaeth i'r golwg trwy y prawf ydyw hon:—Er nad oes gan Esgob *Cape Town* un math o awdurdod ar Esgob Natal, nid oes gan Esgob Natal chwaith, nac un esgob arall yn y Trefedigaethau heb ei greu o dan ddarpariaeth ddeddfwrol arbenig, un math o awdurdod ar neb arall. Y maent yn esgobion, a dim yn ychwaneg. Nid ydynt yn esgobion un lle nac ar neb yn neilldiol. Os ydyw eu hurddiad yn rhoddi hawl iddynt i gyflawni dyledswyddau ysbrydol—megys conffirmio plant, ac ordeinio gweinidogion, &c.—wrth gwrs y maent yn meddu yr hawl hono. Ond er hyny, nid ydynt ond yn yr un sefyllfa yn union ag unrhyw glerigwr yn Eglwys Loegr heb feddu bywiolaeth. Y mae y cyfryw yn offeiriad, neu yn ddiacon, ond nid ydyw yn meddu awdurdod ar neb.

Gosododd y barnwyr i lawr, fel "egwyddor eglur," nad oes gan y Goron, ac ol sefydliad Deddfwriaeth annibynol mewn trefedigaeth, un hawl i greu corphoraeth grefyddol—safle, iawnderau, ac awdurdod yr hon y dylai y drefedigaeth eu cydnabod: llawer llai i sefydlu archesgobaeth gydag awdurdod ar esgobaethau a sefydliadau annibynol ereill.

Mae yn anhawdd dweyd i ba un o'r ddwy blaid y rhydd y prawf hwn leiaf o foddhad. Os ydyw Dr. Colenso wedi llwyddo i ddymchwelyd awdurdod Esgob *Cape Town*, y mae wedi gwneyd hyny ar draul dadguddio fod ei awdurdod ef ei hun yn llawn mor ddirym; a gall Esgob *Cape Town* ymgysuro yn y ffaith, os ydyw wedi cael ei orfodi i roddi i fyny yr awdurdod a hawlid ganddo yn Natal, nad oes gan Dr. Colenso un hawl i arfer awdurdod wrthwynebol, ac nas gall orfodi un clerigwr i gofleidio ei gyfeiliornadau.

Dangosodd y prawf hefyd tuhwnt i bob amheuaeth fod ein Brenhines yn ben mor wirioneddol i Eglwys Loegr ag ydyw y Pab i Eglwys Rhufain. Dyma y canlyniad mawr o'r ddedryd yn achos Colenso: ac er fod y *Guardian* yn brochi yn ei erbyn yn arswydus, ae yn dadgan nas gall yr achos aros lle y mae, y mae yn amlwg ei fod yn wirionedd, ac yn esboniad ar sefyllfa gaethiwus yr Eglwys Sefydledig.

AMERICA.—Y mae y Cadfridog Sheridan wedi cymmeryd Charlotteville, wedi dinystrio Camlas Kanayha, a Ffordd Haiarn Orange ac Alexandria, hyd o fewn tair milldir ar ddeg i Lynchburg, ac yr oedd yn Columbia, Virginia, oddeutu hanner can milldir o Richmond. Hysbysa Sherman, mewn brys lythyr dyddiedig Laurell Hill, Carolina Ogleddol, fod y fyddin oll yn iach a chalonog, ac na chyfarfuant âg un gwrthwynebiad o bwys. Mynega bryslythyr swyddol oddiwrth Lee fod Kilpatrick wedi ei yru o'i wersyll gan Wade Hampton ar y 10fed o Fawrth. Fe ymosododd Bragg ar flwyr blaenaf Schofield ar yr 8fed o Fawrth o flaen Kinston, a chymmerodd 1,500 o garcharorion. Gyrwyd ef yn ol gyda cholled drom mewn amryw o ymosodiadau. Dranoeth efe a giliodd yn ol dros yr afon.

Priodwyd—

AR y 6fed o Fawrth, Mr. Jenkin Jenkins, Pantrefelin, â Miss Mary Jones, Gwastod-Bettws-leiki.

C'lymwyd, gosodwyd yn sydyn—Mary
Mewn mawredd a Siencyn ·
Ein Por rhoed ar y par hyn
Iechyd a byd heb achwyn.

AERONIAN.

Siencyn ab Siencyn yn Sioncach—a fo
A'i Fair, a dedwyddach;
Hylanwer y ddwy linach
Wych eirioed a chewir iach.

IOAN MYNYW, B.B.D.

Yma gwnaeth Siencyn ammod—a dinam
Ferch Daniel o'r gwastod;
Boed i'r ddau yn glau trwy glod
Oedfa heb un anghydfod.

AMNON, II.

Siencyn nid dilyn hudoliaeth—un bell;
Merch bur o'r gymdogaeth,
A Mair heb ddim ymyraeth
I'w fwyn gol fynnai yn gaeth.

CERNGOCH.

Bu Farw—

Chwefror 17, yn ddeng mis oed, Lewis, mab Thomas a Margaret Jones, Tanycoed, Llanwenog. Claddwyd ef y dydd canlynol ym mynwent Alltyblaca, pryd y pregethodd y gweinidog oddiwrth Job vii. 21.

Chwef. 23ain, yn 72 mlwydd oed, Thos. James Stephen Hughes. Hebryngwyd ef y dydd Llun canlynol gan luaws o gyfeillion, i dy ei hir artref, ym mynwent Alltyblaca, lle'r oedd wedi bod yn aelod ffyddlawn am flynyddau lawer. Pregethodd yr ysgrifenydd ar yr achlysur oddiwrth Job xiv. 14. Hynodion ei fywyd oeddent onestrwydd, geirwiredd, a hoffder o hen hanesyddiaeth cymydogaethol.

Negeswr, cofiwr y cyfan,—oedd anwyl
Ddyn onest ym mhob-man;
Ffrancaeg, Saesnaeg gwnai sisian,
Glew ym mhob iaith Cymro glân.

Er yn dlawd ei rawd a'i rân;—yn enwog
Fe lanwai 'i gylch bychan;
Un onest oedd o anian,
Siwr a glew negeswr glân

G. G.

Chwefror 27ain, ar ol cystudd trwm a ddugodd yn amyneddgar, gorphenodd David Davies, Talcrwn-mawr, Llanwnnen, ei yrfa ddaearol, yn 58 mlwydd oed. Y dydd Iau canlynol claddwyd ef ym mynwent Llanwnnen, lle y gorweddai ei deidiau o'i flaen. Ar yr achlysur pregethodd yr ysgrifenydd i dyrfa fawr o bobl a ddaethant yng nghyd i weinyddu iddo y gymmwynas olaf, oddiwrth Luc xii. 20. Buasai'r ymadawedig yn aelod hardd, dirodres, a thangnefeddus o eglwys Alltyblaca am amser maith, a theimlir hiraeth cyffredinol ar ei ol fel cymydog hawddgar a chyfaill serchog; ond nid oes neb a deimla mor ddwys a'i weddw afiach alarus a'i blant ymddifaid. Ond na fydded iddynt hwythau chwaith i deimlo fel rhai heb obaith, ond bydded iddynt gofio'n wastadol mai ychydig iawn o amser fyddwn ni oll cyn cau ein llygaid yn yr angau, ac mai y foment nesaf wedi'n yr agorwn hwynt yn y wlad hono lle nad oes na galar na gofid na marwolaeth byth yn dyfod.

Ar y 23ain o'r mis hwn, bu farw ein hen gyfaill anwyl y Parch. David Beynon, Saint Clears, ryw ychydig yn fyr o gyrhaedd oedran yr addewid, triugain mlwydd a deg. Dydd Llun, y 27ain, pregethodd y Parch. Thomas Thomas o Bantydefaid, yn ei angladd, oddiar Dad. xiv. 13, yng nghapel yr Annibynwyr, ac yn y fynwent sy mewn cyssylltiad a'r capel hwn y gosodwyd corph ein cyfaill ymadawedig i orwedd hyd foreu y Dydd Mawr.

PENYBONT: ARGRAFFWYD GAN WILLIAM LEYSHON.